Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
52/2022
DYDDIAD CYHOEDDI:
14/07/2022

# Adolygiad Annibynnol: Cofrestru'r Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru

OGL © Hawlfraint y Goron, 2022 ISBN Digidol 978-1-80364-508-7

Teitl: Adolygiad Annibynnol: Cofrestru'r Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru

Awdur(on): Sara Bonetti a Kerris Cooper

Adroddiad Ymchwil Llawn: Bonetti, S a Cooper, K (2022) 'Adolygiad Annibynnol: Cofrestru'r Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar yng Nghymru' Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 52/2022
Ar gael yn: https://llyw.cymru/cofrestrur-gweithlu-gofal-plant-chwarae-blynyddoedd-cynnar-yng-nghymru-adolygiad-annibynnol

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Siân Williams
Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: trafodgofalplant@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau........................................................................................................2
Geirfa.............. ......................................................................................................3
1. Cyflwyniad...................................................................................................4
2. Methodoleg ...................................................................................................9
3. Canfyddiadau’r ymchwil o’r ddesg..............................................................16
4. Canfyddiadau o’r cyfweliadau ....................................................................28
5. Canfyddiadau’r Gweithdy Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ...............................44
6. Casgliadau ...................................................................................................49
7. Argymhellion ...............................................................................................51
Adran cyfeirnod.................................................................. **Error! Bookmark not defined.**
Atodiad A Canllaw i Destunau’r Cyfweliadau ..........................................................60
Atodiad B Rhestr o’r Mudiadau a fu’n Cymryd Rhan yn y Cyfweliadau..................................64
Atodiad C Gweithdy Ymgysylltu â Rhanddeiliaid: Mudiadau a Fu’n Cymryd Rhan..............65
Atodiad D Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar mewn Gwledydd Llychlynnaidd ..................66

## Rhestr o dablau

Tabl 2.1: Aliniad rhwng y cwestiynau ymchwil a'r dulliau ........................................................9
Tabl 3.1: Nifer y gweithwyr mewn gwasanaethau gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar cofrestredig, Gorffennaf-Awst 2021 .............................................................17
Tabl 3.2: Cyfuno amcangyfrifon o'r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar ...20
Tabl 3.3: Gofynion cofrestru ar gyfer gweithwyr dysgu cynnar a gofal plant yn yr Alban .....24
Tabl 7.1: Camau Gweithredu i Lywodraeth Cymru cyn y cam sefydlu .................................51
Tabl 7.2: Camau Gweithredu i Lywodraeth Cymru yn ystod y cam sefydlu .........................54

**Geirfa**

| Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| AoLI | Arolwg o'r Llafurlu |
| ACECQA | Australian Children’s Education and Care Quality Authority |
| AGC | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| AGPC | Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar |
| CGA | Cyngor y Gweithlu Addysg |
| DCGP | Dysgu Cynnar a Gofal Plant |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| Gweithlu GPChBC | Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar |
| NDNA | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd |
| OECD | Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd |
| SASS | Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth |
| SSSC | Scottish Social Services Council |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Yn ‘Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar: Cynllun Gweithlu Cymru’, cyflwynodd Llywodraeth Cymru uchelgais, sef 'datblygu gweithlu gofal plant a chwarae medrus sy’n cael ei barchu fel proffesiwn a’i ystyried fel gyrfa o ddewis ac sy’n cael ei gydnabod am y rôl hollbwysig y mae’r sector yn ei chwarae wrth gefnogi datblygiad ein plant' (Llywodraeth Cymru, 2017). Er mwyn gwireddu'r uchelgais hwn, roedd y cynllun strategol 10-mlynedd yn cynnwys pwyntiau gweithredu byrdymor, i'w cyflawni ymhen tair blynedd, ynghyd â phwyntiau gweithredu hirdymor, i'w cyflawni ymhen 10 mlynedd.

1.2 Un o'r pwyntiau gweithredu hirdymor yw cyflwyno cofrestru proffesiynol ar gyfer y gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar (y gweithlu GPChBC). Mae'r rhesymeg ar gyfer cyflwyno cofrestrfa ar gyfer y gweithlu GPChBC yng Nghymru yn cynnwys cydnabod datblygiad proffesiynol parhaus a'r cyfle i'r gweithlu lunio’i lwybr dysgu, a symud ar ei hyd fel aelod o broffesiwn cydnabyddedig. Mae hefyd yn cynnwys rhoi sicrwydd i'r cyhoedd y byddai mesurau'n cael eu cymryd petai aelod o'r gofrestrfa yn methu â chadw at y cod ymddygiad, yn unol â phroffesiynau eraill, er enghraifft addysgu a gwasanaethau cymdeithasol (ibid).

1.3 Mae'r 'gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar' yn cyfeirio at unigolion sy'n gweithio ym maes gofal plant a chwarae gyda phlant 0 i 12 oed, ac mae’n cael ei ddiffinio fel gweithlu sy'n cynnwys 'ymarferwyr a rheolwyr gofal plant, gwarchodwyr plant, arweinwyr a chynorthwywyr cylchoedd chwarae a chlybiau y tu allan i’r ysgol, ac ymarferwyr Dechrau’n Deg' (ibid). Mae'r segment hwn o'r gweithlu yn un heterogenaidd iawn. Mae'n amrywio yn ôl y math o leoliad lle y maent yn gweithio, teitl y swydd, lefelau'r cymwysterau, a phatrymau ac amodau gwaith. Oherwydd yr ystod eang hon o nodweddion, mae cyflwyno cofrestrfa ar gyfer y gweithlu yn dasg gymhleth. Nod yr astudiaeth hon oedd cynorthwyo Llywodraeth Cymru i ddeall yr elfennau cymhleth hyn a chyflwyno datrysiadau posibl, er mwyn llwyddo i gyflwyno cofrestrfa ar gyfer y gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar.

### Pwysigrwydd gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar sydd wedi ei hyfforddi ac sy'n brofiadol

1.4 Mae yna dystiolaeth gynyddol fod darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel yn gallu cael effeithiau cadarnhaol sy'n parhau, a hynny nid yn unig ar y plant sy'n

cymryd rhan yn y ddarpariaeth, ond ar y gymdeithas yn gyffredinol. Er mai dim ond atebion cymysg a geir o’r dystiolaeth wrth holi 'Beth sydd wir yn cyfrif fel ansawdd uchel?', mae'n glir fod gweithlu profiadol, sydd wedi'i hyfforddi, yn elfen allweddol sy'n gyrru ansawdd (OECD, 2020; Sylva et al, 2010).

1.5 Ac eto, nid yw'r gydnabyddiaeth o bwysigrwydd gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi i lefel uchel ac sy'n brofiadol iawn, wedi arwain at amodau gwaith gwell a statws uwch. Mewn nifer o wledydd, mae tâl gweithlu'r blynyddoedd cynnar yn isel a'r buddion a gânt, er enghraifft cyfraniadau pensiwn, yn dal i fod yn llai hael na buddion athrawon mewn cyfnodau addysg eraill; ar yr un pryd, mae cyfrifoldebau'r gwaith a'r llwyth gwaith yn sylweddol. Mae'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus yn ysbeidiol a llwybrau dilyniant yn aneglur, ac mae hyn yn arwain at sector sy'n ei chael yn anodd recriwtio a chadw gweithwyr (Oberhuemer a Schreyer, 2022; OECD, 2020; Pascal et al., 2020).

1.6 Yn yr ugain mlynedd ddiwethaf, gwelwyd mwy o ymdrech i sefydlu strategaeth hirdymor ar lefel genedlaethol ac ar draws gwledydd. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd gan Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD, 2019) archwiliwyd mesurau sydd wedi llwyddo i gynorthwyo'r sector blynyddoedd cynnar mewn gwledydd gwahanol i gadw staff medrus ac i'w datblygu, er enghraifft: gwella cyflogau ac amodau gwaith; cynyddu lefelau cymwysterau, er enghraifft trwy ddarparu cymhelliant ariannol addas; hyrwyddo statws y proffesiwn; denu mwy o ddynion i'r gweithlu; a sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i uwchsgilio'r gweithlu a chadw'r llwybrau i mewn i'r proffesiwn yn agored i weithwyr o gefndiroedd addysgol gwahanol.

1.7 Yng Nghymru, mae gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar yn seiliedig ar economi cymysg o ddarparwyr, lle mae darparwyr cyhoeddus a phreifat yn gweithredu ochr yn ochr â'i gilydd. Gyda system o'r fath, mae'n arbennig o anodd sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn oherwydd mae'n arwain at system ddatgymalog ac anghyflawn ar gyfer casglu data. Yn ei dro, mae hyn yn llesteirio'r gallu i gael trosolwg clir o effaith polisïau ar bob gweithiwr proffesiynol yn y blynyddoedd cynnar. Rhai o'r cwestiynau pwysig i'w hystyried felly, yw 'Sut yr ydym yn goresgyn y natur ddarniog hon ac yn llunio polisïau sy'n seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gynhwysfawr a diweddar?', 'Sut y gallwn ddarparu'r cymhelliant iawn i wella ansawdd?', 'Sut y gallwn fonitro ymdrechion gweithwyr i ddatblygu a sicrhau mai dim ond y rheiny sy'n ddigon da i ymarfer sy'n gwneud hynny?'. Mae polisïau effeithiol yn cynnig

cymhelliant ar lefel unigol ac ar lefel system gyfan, yn anad dim os yw'r cymhelliant hwn yn cael ei osod mewn strategaeth hirdymor ar gyfer datblygu'r gweithlu. Ac yn y cyd-destun hwn, gall sefydlu cofrestrfa ar gyfer y gweithlu fod yn un ateb i'r cwestiynau uchod.

**Cofrestrfeydd gweithlu: trosolwg**

1.8 Mae cofrestrfeydd gweithlu yn systemau data ar-lein a gynlluniwyd i dracio ac i hyrwyddo addysg, hyfforddiant a phrofiad gweithwyr. Eu nod yw bod yn siop-un-stop i weithwyr proffesiynol, er mwyn dod o hyd i ddolenni at hyfforddiant, hysbysebion swyddi, newyddion sy'n ymwneud â'r diwydiant ac offerynnau cynllunio datblygiad proffesiynol. Ond, maent hefyd yn fwy na dim ond cronfa ddata ar-lein.

1.9 Yn achos gweithlu'r blynyddoedd cynnar, er enghraifft, trwy ddilysu cyraeddiadau proffesiynol ac addysgol gweithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar, mae cofrestrfeydd yn anelu at gynorthwyo i godi statws y proffesiwn trwy hyrwyddo gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n dda, wedi'i addysgu'n dda, ei gefnogi’n dda a'i ddigolledu’n deg.

1.10 Yn yr ystyr hwn, mae cofrestrfeydd yn gallu bod o fudd i ymarferwyr, cyflogwyr, ymchwilwyr a'r rheiny sy'n llunio polisïau. Gall cyfranogwyr unigol adeiladu proffil o’u haddysg a’u hyfforddiant, eu hachrediad a hanes eu cyflogaeth. Gall ymarferwyr ddefnyddio'r gofrestrfa i adnabod eu cryfderau a'r meysydd lle mae arnynt angen mwy o ddatblygiad proffesiynol, ac yna i ddod o hyd i hyfforddiant wedi'i gymeradwyo a chofrestru ar ei gyfer. Mae darparwyr yn defnyddio cofrestrfeydd i ddogfennu cymwysterau eu staff, i fonitro gweithgarwch hyfforddiant staff, ac i ddefnyddio gwybodaeth a chymwyseddau a restrir fel rhestr wirio i lenwi bylchau yn eu gwybodaeth a'u harbenigedd, trwy gynllun datblygiad proffesiynol wedi'i deilwra. Maent hefyd yn gallu gwirio hyfforddiant blaenorol, llwybrau cyflogaeth, cyflogau a theitlau. O safbwynt ymchwil a llunio polisïau, mae cofrestrfeydd yn fecanwaith cydlynu ar gyfer data wedi'u gwirio am weithlu'r blynyddoedd cynnar ac felly'n gallu rhoi gwybodaeth hanfodol i'r rheiny sy'n llunio polisïau fel sylfaen ar gyfer eu polisïau.

1.11 Mae nodweddion cofrestrfeydd gweithlu sydd eisoes yn bodoli, yn amrywio o un system i'r nesaf. Yn rhai o’r systemau, mae cofrestru’n orfodol, ac mewn systemau eraill mae'n wirfoddol. Weithiau maent yn rhad ac am ddim; ar adegau eraill mae gofyn i unigolion dalu ffi fechan. Mae hyn yn dangos nad oes un fformat sy’n addas i

bawb, ond rhaid dod i gonsensws ynghylch cofrestrfa benodol sy’n cael ei sefydlu er mwyn sicrhau ei bod yn offeryn effeithiol.

**Adolygiad annibynnol: nodau a strwythur yr adroddiad**

1.12 Comisiynwyd yr adroddiad hwn i gynnig adolygiad annibynnol o'r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar, ac i oleuo camau gweithredu a chamau nesaf er mwyn ei gofrestru'n broffesiynol. Yn unol ag amcanion yr adolygiad, roedd yr astudiaeth hon yn rhoi sylw i'r cwestiynau ymchwil canlynol:

- CY1: Pwy sy'n rhan o'r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar yng Nghymru? Beth yw eu rolau ac ym mha fath o leoliad y maent yn gweithio?
- CY2: Sut y mae gweithwyr gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar yn cael eu categoreiddio a'u gweld? A oes rhannau o'r gweithlu wedi eu cofrestru yn barod gyda chofrestrfeydd sydd eisoes yn bodoli a/neu trwy gyrff proffesiynol? A welir gweithwyr gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar fel rhan o'r sector addysg, y sector gofal, neu sectorau eraill?
- CY3: Mewn achos lle byddai Llywodraeth Cymru yn sefydlu cofrestrfa newydd, a ddylid cofrestru pob gweithiwr gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar? Os na ddylid, a oes yna is-grwpiau penodol y dylid eu cofrestru?
- CY4: Beth yw profiadau Gweinyddiaethau eraill wrth gofrestru'r gweithlu gofal plant a chwarae neu weithluoedd cysylltiedig? Pa wersi y gallwn eu dysgu ganddynt a'u cymhwyso i gyd-destun Cymru?
- CY5: Beth yw'r opsiynau posibl, yr amserlenni posibl ac unrhyw gostau ariannol posibl y mae modd eu hadnabod, ar gyfer symud ymlaen?

1.13 Yn yr adrannau isod, byddwn yn rhoi trosolwg o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon. Yna, byddwn yn mynd ati i adrodd am ganfyddiadau tri cham y prosiect: yr ymchwilio o'r ddesg, y cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru ac mewn gweinyddiaethau eraill lle mae yna gofrestrfa ar waith (yr Alban) neu yn y broses o gael ei sefydlu (Awstralia), a'r gweithdy i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Yna, byddwn yn dod â'r holl ganfyddiadau ynghyd i ddarparu trosolwg o'r meysydd allweddol lle cafwyd cytundeb ac anghytundeb ynghylch sut i symud ymlaen gyda'r gofrestrfa arfaethedig. Yn olaf, byddwn yn cynnig argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch y camau nesaf i'w cymryd i sefydlu cofrestrfa ar gyfer y gweithlu ac er mwyn sicrhau bod yr ystod lawn o fuddion posibl yn cael eu gwireddu.

## 2. Methodoleg

2.1 Aethom ati i gynnal yr astudiaeth trwy ddefnyddio dulliau cymysg, a defnyddiwyd ymchwil o'r ddesg, cyfweliadau wedi eu lled-strwythuro a gweithdy i ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r tabl isod yn dangos yr aliniad a gynlluniwyd rhwng y cwestiynau ymchwil a'r dulliau.

**Tabl 2.1: Aliniad rhwng y cwestiynau ymchwil a'r dulliau**

| Cwestiynau Ymchwil | Ymchwil o'r ddesg | Cyfweliadau | Gweithdy |
|---|---|---|---|
| CY1: Pwy sy'n rhan o'r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar yng Nghymru? Beth yw eu rolau ac ym mha fath o leoliad y maent yn gweithio? | X | | |
| CY2: Sut y mae gweithwyr gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar yn cael eu categoreiddio a'u gweld? A oes rhannau o'r gweithlu wedi eu cofrestru yn barod mewn cofrestrfeydd sydd eisoes yn bodoli a/neu trwy gyrff proffesiynol? A welir gweithwyr gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar fel rhan o'r sector addysg, y sector gofal, neu sectorau eraill? | X | X | |
| CY3: Mewn achos lle byddai Llywodraeth Cymru yn sefydlu cofrestrfa newydd, a ddylid cofrestru pob gweithiwr gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar? Os na ddylid, a oes yna is-grwpiau penodol y dylid eu cofrestru? | | X | X |
| CY4: Beth yw profiadau Gweinyddiaethau eraill wrth gofrestru'r gweithlu gofal plant a chwarae neu weithluoedd cysylltiedig? Pa wersi y gallwn eu dysgu ganddynt a'u cymhwyso i gyd-destun Cymru? | X | X | |
| CY5: Beth yw'r opsiynau posibl a'r amserlenni posibl ac unrhyw gostau ariannol posibl y mae modd eu hadnabod, ar gyfer symud ymlaen? | X | X | |

**Ymchwil o'r ddesg**

2.2 Gwnaethpwyd ymchwil o'r ddesg, wedi'i dargedu, er mwyn rhoi darlun eang o’r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar yng Nghymru ac astudiaethau achos ar gofrestrfeydd y gweithlu addysg a gofal plentyndod cynnar mewn gwledydd eraill. Mewn perthynas â'r ymchwil sydd â ffocws ar Gymru, y man cychwyn oedd data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth ar gyfer mis Gorffennaf-Awst 2021 a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Cymru, ac a gafwyd gan Lywodraeth Cymru. Gan nad yw data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn cynnwys y gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar cyfan, aethom ati i chwilio am ddata pellach mewn adroddiadau a gyhoeddwyd gan fudiadau allweddol y sector, er enghraifft partneriaid CWLWM (Childcare Wales Learning & Working Mutually) (Clybiau Plant Cymru – Kids' Clubs; Blynyddoedd Cynnar Cymru, Early Years Wales; Mudiad Meithrin; Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) Cymru; PACEY Cymru), Chwarae Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg a Llywodraeth Cymru.

2.3 Buom yn ystyried ategu at y data hyn gyda dadansoddiad o'r Arolwg o'r Llafurlu chwarterol, sef arolwg cenedlaethol o aelwydydd preifat yn y Deyrnas Unedig gyda sampl chwarterol o tua 90,000 o unigolion. Mae'r Arolwg o'r Llafurlu chwarterol yn darparu gwybodaeth fanwl am nodweddion demograffeg, addysg a hyfforddiant, enillion ac amodau gwaith ac mae ar gael yn hwylus trwy UK Data Service. Er mwyn sicrhau ein bod yn defnyddio data o gyfnod tebyg i ddata'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth, ac er mwyn osgoi defnyddio data a gasglwyd yng nghanol pandemig Covid-19, aethom ati i archwilio data ar gyfer tri chwarter cyntaf 2021 (y data diweddaraf adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn) gyda'r nod o greu cyfartaleddau parhaus a sefydlogi canlyniadau. Fodd bynnag, yn dilyn dadansoddiad cychwynnol ac ar ôl ystyried cyfyngiadau'r data, ni chafodd data'r Arolwg o'r Llafurlu eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol.

2.4 Arweiniodd sawl ffactor at y penderfyniad i beidio â chynnwys y data hyn. Yn gyntaf, er bod yr Arolwg o'r Llafurlu yn gywir ac yn ddibynnol iawn, mae'r tueddiadau sy'n gysylltiedig â phob dull sy'n seiliedig ar sampl, yn dal i fod yno. Felly, mae'r Arolwg o'r Llafurlu yn darparu amcangyfrifon yn hytrach na ffigurau pendant, ac mae'r amcangyfrifon hyn yn gallu bod yn eithaf afreolaidd ar gyfer ardaloedd daearyddol bychain fel Cymru. Yn ail, yn hanesyddol nid oedd y categorïau swyddi yn alinio

gyda’r rheiny sydd o ddiddordeb i’r adroddiad hwn, bob tro, ond cawsant eu newid yn 2021 fel eu bod yn alinio'n well gyda theitlau swyddi a rolau yn sector y blynyddoedd cynnar. Er enghraifft, rhannwyd y cod swydd 'Gwarchodwyr plant a swyddi cysylltiedig', a arferai grwpio gwarchodwyr plant gydag *au pairs* a nanis, yn ddau gategori ar wahân, un ar gyfer gwarchodwyr plant ac un ar gyfer nanis ac *au pairs*. Roedd hwn yn gam cadarnhaol, ond roedd hefyd yn golygu bod 2021 yn flwyddyn bontio ar gyfer y codau hyn. Yn wir, wrth i ni edrych ar y codau swyddi newydd, nid oedd pob categori'n bresennol yn y data ar gyfer tri chwarter cyntaf 2021, ac felly ni fyddai modd defnyddio cyfartaleddau parhaus ar draws y chwarteri i sefydlogi'r data. Yn drydydd, ac yn ymwneud â'r ail bwynt, mewn rhai achosion roedd ffigurau'r Arolwg o'r Llafurlu yn wahanol iawn i'r rheiny a gafwyd gan randdeiliaid yng Nghymru. Gallai hyn fod yn ganlyniad i nifer o resymau, gan gynnwys y pwyntiau a grybwyllwyd uchod, ond hefyd y ffaith fod y sector wedi gweld newidiadau sylweddol ar ôl y pandemig. Gyda'r data ar gyfer yr Arolwg o'r Llafurlu yn cael eu hunan-riportio, mae'n debygol fod y ffigurau a gafwyd o'r cyfnod hwn yn llai na chywir.  Er mwyn osgoi camarwain y darllenydd gyda gwybodaeth sy'n gwrthdaro, penderfynom, felly, beidio ag adrodd ar ddata'r Arolwg o'r Llafurlu.

2.5 Mae yna rai cyfyngiadau i ddata'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth hefyd ac mae'n bwysig nodi'r rhain. Mae data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth hefyd yn dibynnu ar wybodaeth sy'n cael ei hunan-riportio ac nid yw'n cael ei gwblhau gan bob lleoliad cofrestredig. Cwblhawyd y data ar gyfer Gorffennaf-Awst 2021 gan 86 y cant o'r darparwyr, ac felly mae'n tanamcanu niferoedd cyfan y gweithwyr mewn lleoliadau cofrestredig. Mae'n bwysig ystyried hefyd nad yw'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth yn cynnwys gwasanaethau gofal plant heb eu cofrestru, er enghraifft nanis. Elfen arall sy’n cymhlethu amcangyfrifon sy'n seiliedig ar y data hyn, yw y bydd gan rai gweithwyr fwy nag un swydd ac felly efallai y byddant yn cael eu cyfrif sawl gwaith.

2.6 Roedd ffocws astudiaethau achos mewn gwledydd eraill ar y rheiny a chanddynt gofrestrfeydd gweithlu yn barod (yr Alban, Unol Daleithiau America), a'r rheiny a chanddynt systemau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar tebyg ac a oedd yn archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno cofrestrfa ar gyfer y gweithlu (Awstralia). Ystyriwyd, hefyd, wledydd Llychlynnaidd, sydd ag enw da am  Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o ansawdd uchel, ond ni chawsant eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol (gweler Atodiad D). Y rhesymeg y tu ôl i'r dewis hwn oedd nad oes gan y

gwledydd hyn gofrestrfeydd ar gyfer y gweithlu ac felly ni allent gyfrannu unrhyw ddealltwriaeth newydd ynghylch sut y gallai cofrestrfa ar gyfer y gweithlu weithredu yng Nghymru.

**Cyfweliadau**

2.7 Defnyddiwyd canfyddiadau dau linyn o’r ymchwil o'r ddesg i oleuo cam nesaf yr ymchwil, a oedd yn seiliedig ar gyfres o gyfweliadau gyda rhanddeiliaid yn y maes gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar, mudiadau sy'n gyfrifol am gofrestrfa gweithlu'r blynyddoedd cynnar yn yr Alban a'r rheiny sy'n archwilio cofrestrfa ar gyfer y gweithlu yn Awstralia. Cynhaliwyd mwyafrif y cyfweliadau mewn grwpiau bychain er mwyn uchafu nifer y bobl a fyddai'n cynnig mewnbwn ac nid oeddent yn parhau am fwy na 60 munud. Gweler Atodiad A a B i ddarllen y canllawiau i destunau'r cyfweliadau a rhestr o fudiadau.

2.8 Er mwyn deall y profiadau yn ymwneud â chofrestru a/neu sut y byddai cofrestrfa'n cael ei gweld yng Nghymru, cynhaliwyd 11 cyfweliad wedi eu lled-strwythuro gyda chynrychiolwyr o'r mudiadau canlynol: Gofal Cymdeithasol Cymru; Cyngor y Gweithlu Addysg; Blynyddoedd Cynnar Cymru; Mudiad Meithrin; Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) Cymru; PACEY Cymru; Chwarae Cymru; Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs; Arolygiaeth Gofal Cymru; Unison Cymru; a Thimau Gofal Plant a Chwarae Awdurdodau Lleol.

2.9 Er mwyn deall mwy am brofiadau gwledydd eraill wrth weithredu cofrestrfa ar gyfer y gweithlu, ac i ddysgu ganddynt, aethom ati i gynnal cyfweliadau gyda chynrychiolwyr o SSSC (Scottish Social Services Council) sy'n gyfrifol am gofrestrfa gweithlu'r blynyddoedd cynnar yn yr Alban, a Llywodraeth yr Alban; ac unigolion o ACECQA (Australian Children’s Education and Care Quality Authority). Er i ni gynnwys astudiaethau achos ychwanegol am wledydd eraill yn yr ymchwil o'r ddesg, cynhaliwyd cyfweliadau gyda'r gwledydd hynny y gallai eu profiadau roi mewnwelediadau a oedd yn berthnasol i gyd-destun Cymru, yn unig.

2.10 Trawsgrifiwyd y cyfweliadau gair am air, eu gwneud yn ddienw a'u dadansoddi fesul thema (Braun a Clarke, 2021) gan ddefnyddio meddalwedd NVivo. Roedd y dull a ddefnyddiwyd yn gyfuniad o dechneg ddiddwythol ac anwythol: ar sail y canllawiau i destunau'r cyfweliadau, aethom ati gan ddechrau gyda rhestr o themâu eang er mwyn strwythuro'r dadansoddiad, er enghraifft pwy ddylid eu cynnwys yn y gofrestrfa, a ddylai'r gofrestrfa fod yn rhad ac am ddim neu a ddylai fod ffi, a beth

fyddai rôl cymwysterau. Fodd bynnag, roedd hon yn broses iteraidd hefyd ac wrth i ni ddadansoddi cyfweliadau, ychwanegwyd themâu ac is-themâu ychwanegol, ar sail y materion a godwyd gan gyfranogwyr. Er enghraifft, ni holwyd y cyfranogwyr am gyflog ac amodau gwaith y sector GPChBC; fodd bynnag, roedd y mater hwn yn gyffredin gan i'r cyfranogwyr godi'r mater eu hunain mewn perthynas â rhai o'r cwestiynau eraill a drafodwyd. Penderfynwyd cynnwys is-thema, felly, sef 'cyflog isel y gweithlu' mewn perthynas â thema ehangach 'cyd-destun ehangach y gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar'. Roedd y broses o ddadansoddi'r cyfweliadau yn golygu darllen trawsgrifiadau'r cyfweliadau yn fanwl a chodio'r testun o dan yr holl themâu ac is-themâu perthnasol. Unwaith i'r holl gyfweliadau gael eu codio, adolygwyd yr holl themâu a'r testun wedi'i godio o fewn y themâu hyn, ac yn ganlyniad cafwyd rhywfaint o uno, rhywfaint o wahanu a rhywfaint o ad-drefnu themâu.

2.11 Dadansoddwyd y cyfweliadau gyda'r rhanddeiliaid yng Nghymru gyda'i gilydd, gan ddefnyddio un fframwaith codio a oedd yn esblygu. Dyma'r dull mwyaf addas, nid yn unig er mewn cadw'r wybodaeth yn ddienw ac am fod y cyfweliadau wedi eu cynnal i raddau helaeth mewn grwpiau, ond hefyd gan mai amcan y cyfweliadau oedd ystyried yr holl safbwyntiau perthnasol, yn hytrach nag amlygu safbwynt perthynol grwpiau gwahanol. Dadansoddwyd y cyfweliadau gyda'r Alban ac Awstralia ar wahân gyda fframwaith thematig ar wahân, er mwyn canolbwyntio ar y gwersi a ddysgwyd a fyddai'n gallu bod yn ddefnyddiol i oleuo'r broses o sefydlu cofrestrfa yng Nghymru.

### Gweithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid

2.12 Roedd cam olaf y prosiect yn golygu ymgysylltu ymhellach â rhanddeiliaid trwy ddwy awr o weithdy, gyda'r nod o adnabod meysydd lle’r oedd cytundeb ac anghytundeb ymhlith y grŵp, ac, o'r rhain, tynnu casgliadau terfynol ac argymhellion i Llywodraeth Cymru ynghylch y ffordd orau o symud ymlaen i greu cofrestrfa ar gyfer y gweithlu.

2.13 Cynhaliwyd y gweithdy'n rhithwir ac roedd yn cynnwys rhanddeiliaid o Gymru a chynrychiolwyr o Lywodraeth yr Alban a SSSC gyda’r nod o gael mewnwelediadau pellach i brofiad yr Alban o sefydlu cofrestrfa (gweler Atodiad C am restr o fudiadau). Cynlluniwyd y gweithdy gan ddilyn egwyddorion a chamau allweddol

meddylfryd dylunio er mwyn uchafu’r cyd-arloesi, ond fe'u haddaswyd i ffitio i'r fformat ar-lein o ddwy awr. Strwythurwyd y gweithdy yn dair rhan:

- **Cyflwyno canfyddiadau cychwynnol i randdeiliaid.** Yn yr adran gyntaf aethpwyd ati i atgoffa rhanddeiliaid am amcanion yr adolygiad annibynnol o gofrestrfa ar gyfer y gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar yng Nghymru. Yna, cawsant eu briffio am ganfyddiadau'r ymchwil o'r ddesg a'r cyfweliadau, o ran yr elfennau hysbys ac anhysbys am y gweithlu GPChBC yng Nghymru, a sut y mae cofrestrfeydd gweithlu'n gweithio mewn gwledydd eraill, gyda ffocws ar yr Alban ond yn tynnu hefyd ar enghreifftiau o Unol Daleithiau America. Yn olaf, cyflwynodd y tîm y prif themâu a amlygodd yn ystod cam y cyfweliadau ac a oedd yn ffocws i weddill y gweithdy.
- **Meithrin consenswს mewn grwpiau trafod.** Trefnwyd y cyfranogwyr yn dri grŵp gan sicrhau bod cyfuniad o gynrychiolwyr mudiadau gwahanol ymhob grŵp. Rhoddwyd cwestiynau trafod i bob grŵp a chawsant eu promptio mewn perthynas ag un neu ddau o'r tri phrif faes pwnc:
  - diffinio'r gweithlu GPChBC a phwy ddylid eu cynnwys yng nghofrestrfa'r gweithlu
  - elfennau ymarferol cofrestrfa, er enghraifft: a ddylai fod yn rhad ac am ddim neu a ddylai fod ffi, sut i ymdrin â chofrestru gweithwyr sydd â rolau deuol, a chysyniadu'r gweithlu yn y ddadl am ‘ofal yn erbyn addysg’
  - rôl cymwysterau, datblygiad proffesiynol parhaus ac elfennau cysylltiedig eraill mewn cofrestrfa

  Yna, rhoddwyd i'r grwpiau'r dasg o adnabod pwyntiau lle'r oedd cytundeb, unrhyw faterion yr oedd angen eu datrys o hyd, ac awgrymiadau ynghylch sut i ddatrys y materion hynny.
- **Trafodaeth, adborth a'r camau nesaf.** Yn adran olaf y gweithdy, daeth pob grŵp yn ôl at ei gilydd a gofynnwyd i unigolyn o bob grŵp roi crynodeb o'r meysydd lle daethpwyd i gytundeb, yr heriau parhaus a'r syniadau ar gyfer y camau nesaf. Hwyluswyd y drafodaeth gan Natalie Perera, Prif Swyddog Gweithredol Education Policy Institute a rhannwyd crynodeb gweledol o'r drafodaeth mewn amser real. Gwahoddwyd pob rhanddeiliad i adrodd yn ôl am

drafodaethau grwpiau eraill. Daeth y gweithdy i ben gyda chrynodeb o'r prif elfennau i'w cymryd o'r ymarfer meithrin consenswS a'r camau nesaf.

2.14 Wedi dadansoddi'r drafodaeth a gafwyd yn y gweithdy, cyfosodwyd canfyddiadau'r tri cham yn yr ymchwil hwn er mwyn llunio'r argymhellion terfynol i Lywodraeth Cymru.

## 3. Canfyddiadau'r ymchwil o'r ddesg

### Y gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar yng Nghymru

3.1 At ddibenion yr adolygiad hwn, mae'r ffocws ar y gweithlu GPChBC fel y'i diffiniwyd yn y cynllun strategol 10-mlynedd, h.y. unigolion sy’n gweithio ym meysydd gofal plant neu chwarae, gyda phlant yn y grŵp oedran 0-12 (Llywodraeth Cymru, 2017). Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pwysigrwydd y gweithlu ehangach sy'n cefnogi plant, ym maes addysg yn benodol, a gweithwyr sy'n gweithio mewn rolau lluosog. Felly, rydym yn cynnwys gwybodaeth am athrawon meithrin a gweithwyr cymorth hefyd. Nid ydym yn cynnwys gweithwyr gofal plant preswyl sydd eisoes o fewn cylch gwaith gofal cymdeithasol. Mae ein ffocws hefyd ar weithwyr yn hytrach na gwirfoddolwyr, er i ni archwilio'r posibilrwydd o gynnwys gwirfoddolwyr yn y cyfweliadau ac yn y gweithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid.

3.2 Mae'n anodd amcangyfrif union faint y gweithlu GPChBC yng Nghymru ac mae'n amlygu un o gyfraniadau posibl cofrestrfa ar gyfer y gweithlu. Mae rhai rhannau o'r gweithlu eisoes wedi eu cofrestru'n unigol: mae hyn yn cynnwys athrawon ysgolion meithrin a gweithwyr cymorth dysgu yn y meithrin, sy'n gweithio mewn ysgolion ac y mae gofyn iddynt gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Mae hefyd yn cynnwys gwarchodwyr plant y mae gofyn iddynt gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Yn ogystal, mae gofyn i wasanaethau gofal plant gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru os ydynt ar agor am fwyaf na dwy awr ar unrhyw ddiwrnod ac o leiaf chwe diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr (Arolygiaeth Gofal Cymru, 2020), er nad oes gofyn i weithwyr unigol yn y lleoliadau hyn gofrestru ar hyn o bryd.

3.3 Mae achos gweithwyr chwarae yn haeddu sylw ar wahân, oherwydd, er bod unigolion sy'n gweithio gyda phlant 0-12 oed trwy waith chwarae yn cael eu gweld fel rhan o'r gweithlu GPChBC, ac felly yn grŵp y gellid ei gynnwys, o bosibl, yn y gofrestrfa, mae diffiniad gweithiwr chwarae lawer yn ehangach. Diffinnir gweithiwr chwarae fel 'unigolyn sy'n defnyddio chwarae yn rhan o'u gwaith neu weithgarwch gwirfoddoli; neu'n rheoli neu'n cydlynu chwarae' (Llywodraeth Cymru, 2010). Mae'r gweithlu gwaith chwarae yn cynnwys y rheiny sy'n gweithio mewn ystod eang o leoliadau, gan gynnwys canolfannau chwarae, clybiau y tu allan i'r ysgol, parciau chwarae antur sydd wedi’u staffio a Chanolfannau Plant Integredig (Chwarae Cymru, 2020). Mae'n arbennig o anodd amcangyfrif nifer y gweithwyr chwarae, gan

eu bod hefyd yn gweithio mewn lleoliadau nad ydynt wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, a gydag ystod oedran wahanol i'r hyn sydd yng nghylch gwaith y gweithlu GPChBC fel y diffinnir uchod (Chwarae Cymru, 2020).

3.4 Daw'r amcangyfrifon mwyaf diweddar ar gyfer y gweithlu GPChBC o ddata Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (Tabl 3.1) sy'n dangos nifer yr unigolion sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal plant cofrestredig neu sydd wedi'u cofrestru fel gwarchodwyr plant, fel ag y mae ym mis Gorffennaf-Awst 2021. Ar sail y ffigurau hyn, mae maint y gweithlu, yn gyffredinol, tua 14,800 o bobl, ac o'r rhain roedd 1,100 yn warchodwyr plant ac ychydig dros 13,500 yn weithwyr mewn gofal dydd i blant (gan gynnwys *créche*, gofal diwrnod llawn, gofal y tu allan i'r ysgol, gofal dydd sesiynol a darpariaeth chwarae mynediad agored).

**Tabl 3.1: Nifer y gweithwyr mewn gwasanaethau gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar cofrestredig, Gorffennaf-Awst 2021**

| Math o ofal | Nifer y staff |
|---|---|
| Gwarchodwyr plant | 1,100 |
| Gweithwyr gofal dydd plant | 13,656 |
| *Créche* | 57 |
| Gofal diwrnod llawn | 9,814 |
| Darpariaeth chwarae mynediad agored | 76 |
| Gofal y tu allan i'r ysgol | 1,803 |
| Gofal dydd sesiynol | 1,906 |
| Cyfanswm | 14,756 |

Ffynhonnell: Data Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru

3.5 Fel y disgrifiwyd yn yr adran am fethodoleg, mae yna rywfaint o gyfyngiadau ar ddata'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth. Mae’n dibynnu ar wybodaeth sydd wedi'i hunan-riportio ac nid yw'n cael ei ddychwelyd gan 100 y cant o'r darparwyr. Mae'n bwysig ystyried nad yw'r ffigurau hyn yn cynnwys gwasanaethau gofal plant heb eu cofrestru, er enghraifft lleoliadau sy'n gweithredu am lai na dwy awr y dydd a nanis. Elfen arall sy’n cymhlethu amcangyfrifon sy'n seiliedig ar y data hwn, yw bod gan rai gweithwyr fwy nag un swydd yn y sector neu mewn sectorau eraill, a gallai'r ffigurau hyn gynrychioli goramcan neu danamcan, gan ddibynnu a ydynt yn adrodd am un neu fwy o'u rolau (Stedman a Lewis, 2022). Nid yw athrawon y blynyddoedd cynnar yn cael eu cynrychioli yn y ffigurau hyn chwaith. Yn ôl Cyngor y Gweithlu

Addysg, yn 2020 roedd yna 116 o athrawon meithrin a gweithwyr cymorth meithrin (40 o athrawon a 76 o weithwyr cymorth).

3.6 Roedd ceisio cael data dibynadwy am nifer y gweithwyr chwarae yn fwy cymhleth[1]. Fel y dengys Tabl 3.1, mae data Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru yn dal cyfran fechan o'r sector gwaith chwarae yn unig (76 gweithiwr mewn darpariaeth chwarae mynediad agored a 1,803 ym maes gofal plant y tu allan i'r ysgol), Mae hyn yn tynnu sylw ymhellach at gyfyngiadau data SASS am fod data Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru yn seiliedig ar leoliadau cofrestredig ac yn dibynnu ar y lleoliad ei hun yn adrodd yn erbyn y cwestiynau.Gall lleoliadau ddehongli cwestiynau'n wahanol, a hyd yn oed pan fo aelod o staff yn dal cymhwyster gwaith chwarae ddewis eu hadrodd fel gweithiwr gofal plant lle mae ganddynt hefyd gymhwyster gofal plant. Arwyddocaol o'r gweithlu gwaith chwarae mynediad agored yn gweithio mewn lleoliadau sydd heb eu cofrestru (Chwarae Cymru 2020). Wahân , roedd Clybiau Plant Cymru Kid's Clubs, sef y mudiad cenedlaethol ar gyfer Clybiau Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol yng Nghymru, yn amcangyfrif bod yna 5,500 o weithwyr chwarae (gyda 1,000 o wirfoddolwyr ychwanegol) ym mis Mawrth 2020 yn y clybiau y maent yn eu cefnogi (Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs , 2020).

3.7 Yn olaf, anhawster ychwanegol wrth amcangyfrif maint y gweithlu GPChBC yng Nghymru, yw nad yw llawer o'r categorïau hyn wedi'u diffinio'n glir a bod yna rywfaint o orgyffwrdd, er enghraifft gallai gofal y tu allan i'r ysgol gynnwys gweithwyr chwarae a gweithwyr gofal plant. Wrth feddwl am yr holl gafeatau hyn, yn Nhabl 3.2, rydym yn cyfuno ffynonellau data gwahanol er mwyn rhoi darlun sy'n fwy cyflawn, er bod rhannau o'r gweithlu, er enghraifft nanis, yn dal i fod ar goll oherwydd diffyg data dibynadwy (gweler yr adran am fethodoleg i gael gwybod pam nad yw'r ffigurau o'r Arolwg o'r Llafurlu, sydd ag amcangyfrifon ar gyfer nifer y nanis, wedi eu

[1] Mae gweithwyr chwarae yn gweithredu mewn ystod o leoliadau amrywiol. Mae'r gweithlu yn cynnwys y rhai sy'n gweithio mewn darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored a chlybiau gofal plant y tu allan i'r ysgol. At ddibenion cofrestru, diffinnir gwaith chwarae Mynediad Agored fel darpariaeth lle nad yw plant yn cael eu cyfyngu yn eu symudiadau, heblaw am ble sy'n gysylltiedig â materion diogelwch ac nad ydynt yn cael eu hatal rhag mynd a dod fel y mynnant Mae Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol yn cael ei ddiffinio fel gofal plant y tu allan i ddiwrnod ysgol llawn amser y plentyn ac mae'n cynnwys gofal a ddarperir cyn yr ysgol, ar ôl ysgol ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Efallai y byddan nhw'n cael eu darparu fel clybiau annibynnol neu fel rhan o'r ddarpariaeth gofal dydd llawn.

Ni chaiff lleoliadau sy'n rhedeg am lai na 2 awr y dydd neu am lai na 5 diwrnod y flwyddyn eu rheoleiddio ac maent yn anghofrestredig.

cynnwys). Wrth gymryd yr amcangyfrifon diweddaraf o'r data a grynhoir yn Nhabl 3.2, mae maint y gweithlu GPChBC cyfan yng Nghymru tua 20,300 o weithwyr.

**Tabl 3.2: Cyfuno amcangyfrifon o'r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar**

| | Data Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (Gorffennaf-Awst 2021) | Clybiau Plant Cymru Kids' Club (Mai 2020) | Cyngor y Gweithlu Addysg (2020) | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Gwarchodwyr plant | 1,100 | | | |
| Ymarferwyr gofal plant | 13,580 | | | |
| Athrawon meithrin a gweithwyr cymorth meithrin | | | 116 | |
| Gweithwyr chwarae (clybiau y tu allan i'r ysgol) | | 5,553 | | |
| Cyfanswm | | | | 20,349 |

Ffynonellau: Data Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth Arolygiaeth Gofal Cymru (2021); O'Toole, (2020); Cyngor y Gweithlu Addysg (2020)

**Astudiaethau achos am gofrestrfeydd gweithlu mewn gwledydd eraill**

3.8 Yn yr adran hon, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymchwil o'r ddesg ynghylch profiadau gweinyddiaethau eraill wrth sefydlu a/neu reoli cofrestrfa ar gyfer y gweithlu. Mae'r ffocws ar wledydd sydd â sector blynyddoedd cynnar tebyg o ran strwythur i'r un sydd yng Nghymru (h.y., yn seiliedig ar system marchnad gymysg) ac sydd â rhywfaint o brofiad o weithredu cofrestrfa ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, sy'n cynnwys Yr Alban a mwyafrif y taleithiau yn Unol Daleithiau America. Yn ogystal, penderfynwyd cynnwys Awstralia fel gwlad sydd hefyd yn archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno cofrestrfa ar gyfer y gweithlu ar lefel ffederal.

3.9 Ystyriwyd cynnwys gwledydd Llychlynnaidd, o ystyried y ffaith eu bod yn aml yn cael eu defnyddio fel meincnod ansawdd i'w efelychu o ran eu haddysg a gofal plentyndod cynnar. Fodd bynnag, mae'r systemau addysg a gofal plentyndod cynnar yn y gwledydd Llychlynnaidd yn seiliedig ar draddodiadau hanesyddol, athronyddol ac addysgegol sy'n eithaf gwahanol, ac maent yn systemau ymreolaethol sydd wedi eu datganoli'n gryf. Mae'n anodd eu cymharu â chyd-

destun Cymru, felly. Yn ogystal, mae'r gweithlu yn eithaf homogenaidd o ran lefelau cymhwyster, sy'n gyffredinol uchel, ac sy'n elwa ar statws uchel mewn cymdeithas. Gellid dadlau nad yw cofrestrfa ar gyfer y gweithlu yn angenrheidiol oherwydd y nodweddion hyn. Felly, nid ydym wedi cynnwys y gwledydd hyn wrth drafod ein canfyddiadau (gweler Atodiad D am grynodeb o'r systemau addysg a gofal plentyndod cynnar yn y Gwledydd Llychlynnaidd). Yn yr un modd, penderfynwyd cynnwys Seland Newydd yn wreiddiol, o ystyried ffocws cynyddol y wlad ar wella ansawdd addysg a gofal mewn plentyndod cynnar. Fodd bynnag, nid oes ganddi gofrestrfa ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar nac ychwaith unrhyw gynlluniau i gyflwyno cofrestrfa o'r fath.

*Yr Alban*

3.10 Yr Alban yw'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael gweithlu blynyddoedd cynnar sydd wedi'i reoleiddio'n llawn (Hevey, 2017), er bod sefydliadau gwahanol yn gyfrifol am gofrestru rhannau gwahanol o'r gweithlu. Mae yna dair cofrestrfa ar waith ar hyn o bryd ar gyfer y grwpiau canlynol o weithwyr dysgu cynnar a gofal plant:

- athrawon y blynyddoedd cynnar (meithrin a derbyn), sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Addysgu Cyffredinol
- gweithwyr gofal plant mewn gwasanaethau gofal dydd i blant, sydd wedi'u cofrestru gydag SSSC (Scottish Social Services Commission)
- gwarchodwyr plant, sydd wedi'u cofrestru gyda'r Arolygiaeth Gofal

3.11 Cofrestrwyd y tri grŵp hyn o weithwyr y blynyddoedd cynnar ar adegau gwahanol gan ddilyn hanesion datblygu gwahanol y tri chorff cofrestru. Y Cyngor Addysgu Cyffredinol yw'r corff sydd wedi'i sefydlu hiraf, ac fe'i sefydlwyd yn 1965 o dan ddeddf o'r enw *Teaching Council (Scotland) Act 1965*. Er 2005, mae wedi bod yn ofyniad cyfreithiol i bob athro sy'n gweithio mewn ysgol cyngor lleol yn yr Alban i gofrestru gyda nhw; estynnwyd hyn i gynnwys ysgolion annibynnol ac ysgolion a gynorthwyir trwy grant, yn 2017. Crëwyd y cyngor i roi mwy o reolaeth i athrawon dros gymwysterau mynediad angenrheidiol. Daeth hyn yn sgil prinder staff addysgu, llacio'r gofynion mynediad a dirywiad cysylltiedig mewn safonau yn y proffesiwn yn y 1960au (Matheson, 2015). Er mwyn dod yn athro blynyddoedd cynnar, mae gofyn cael cymhwyster ar lefel gradd a statws athro cymwysedig (Siraj a Kingston, 2015). Er mwyn cynnal eu cofrestriad, mae gofyn i athrawon gymryd rhan mewn Adolygiad

a Datblygiad Proffesiynol parhaus (Cyngor Addysgu Cyffredinol yr Alban, nid oes dyddiad).

3.12 Yn fwy diweddar, sefydlwyd SSSC (The Scottish Social Services Council) yn 2001 gyda'r nod o ddiogelu defnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol a chodi safonau a chefnogi proffesiynoldeb gweithlu'r gwasanaethau cymdeithasol (Siraj a Kingston, 2015). I ddechrau, roedd ffocws y gofrestrfa ar ofal cymdeithasol ac roedd yn rhan o ymgyrch i broffesiynoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol wrth iddo ddod yn sector mwy blaenllaw mewn ymateb i anghenion poblogaeth a oedd yn heneiddio. Er 2003, mae gofyn i weithwyr cymdeithasol gofrestru gyda'r SSSC yn dilyn deddf o'r enw *Regulation of Care (Scotland) Act 2001* (Healthcare News Scotland, 2019). Yn raddol, cyflwynwyd rhannau eraill o'r gweithlu gofal cymdeithasol, dros gyfnod o amser, a chyflwynwyd gweithwyr gofal plant, ynghyd â grwpiau eraill yn raddol, yn dilyn deddfwriaeth newydd yn 2009 (Arolygiaeth Gofal Yr Alban, nid oes dyddiad). Y rhesymeg dros gofrestru yw proffesiynoleiddio’r gweithlu’n fwy, gan amddiffyn y rheiny y mae'n eu gwasanaethu, codi'r safonau disgwyliedig a sicrhau bod y safonau disgwyliedig yn glir, a gofyn am gymwysterau penodol er mwyn sicrhau gweithlu o ansawdd uchel. Y gobaith, hefyd, yw y bydd y proffesiynoleiddio hwn yn annog pobl i ymuno â'r gweithlu ac y bydd cyflogau, yn y pendraw, yn adlewyrchu'r safle proffesiynol (Healthcare News Scotland, 2019). Mae gweithwyr ar draws y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol wedi eu cynnwys, ond nid gwirfoddolwyr. Nid oes cofrestriad deuol - felly nid yw gweithwyr y mae'n ofynnol iddynt gofrestru gyda chorff arall yn barod, wedi eu cynnwys (Llywodraeth yr Alban, 2009). Yn sgil rheoliadau 2009, roedd gofyn i weithwyr gofal plant gofrestru cyn gynted ag a oedd yn ymarferol bosibl, gyda chyfnod o ras, a gan ystyried nifer y ceisiadau yr oedd angen eu prosesu. Cynhaliodd y llywodraeth ymgynghoriad cyn y ddeddfwriaeth hefyd, a chynnal digwyddiadau gyda'r sector gwirfoddol a phreifat. Roedd y broses o weithredu'r gofrestrfa yn araf, ac roedd yn anodd cael sefydliadau i gydymffurfio i ddechrau (Llywodraeth yr Alban, 2009). Mae yna dair lefel wrth gofrestru gyda'r SSSC, ac maent yn gysylltiedig â lefelau gwahanol o gyfrifoldeb a chymwysterau; ymarferydd arweiniol/rheolwr, ymarferydd craidd/annibynnol a gweithiwr cymorth (Hevey, 2017). Wrth gofrestru, mae gweithwyr gofal plant yn ymrwymo i ddilyn cod ymddygiad proffesiynol yr SSSC, i gael datblygiad proffesiynol parhaus, a hefyd i feddu ar y cymwysterau gofynnol ar gyfer lefel eu cofrestriad neu fod yn gweithio tuag atynt (Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol Yr Alban, nid oes dyddiad).

3.13 Yn olaf, sefydlwyd yr Arolygiaeth Gofal yn 2011, yn dilyn hanes hirach o sefydliadau lluosog a oedd yn gyfrifol am fonitro gwasanaethau cymdeithasol gwahanol (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg (HMIE); SWIA (Social Work Inspection Agency) a'r Comisiwn Gofal). Bu gofyniad cyfreithiol i warchodwyr plant gofrestru gyda'r Arolygiaeth Gofal ers ei sefydlu, yn dilyn deddf o'r enw *Public Services Reform (Scotland) Act 2010* (y Ddeddf). Er yr anogir gwarchodwyr plant i ddilyn cod ymddygiad yr SSSC, nid oes gofyniad iddynt wneud hynny ac nid oes unrhyw ofynion penodol o ran cymwysterau er mwyn cofrestru fel gwarchodwr plant (Siraj a Kingston, 2015). Nid oedd gwarchodwyr plant wedi eu cynnwys yng nghofrestriad yr SSSC oherwydd cydnabuwyd bod ganddynt rôl unigryw o gymharu â rhannau eraill o'r gweithlu. Yn aml, nhw yw’r unig weithwyr yn eu lleoliad, ac felly mae'n bosibl y byddai'n fwy heriol mynd i sesiynau hyfforddiant ac ennill cymwysterau. Yn ogystal, mae eu rolau wedi’u dynodi'n llai clir, ac mae yna bosibilrwydd eu bod yn ymgymryd â phob un o'r rolau penodol, sef rheolwr, ymarferydd a gweithiwr cymorth (Gweithrediaeth yr Alban, 2006). Fodd bynnag, wrth eu heithrio o'r un gofynion o ran cymwysterau a hyfforddiant â'r rheiny sydd wedi eu cofrestru gyda'r SSSC ceir mwy o amrywiaeth ymhlith gwarchodwyr plant o ran ansawdd (Siraj a Kingston, 2015). Mae hyn yn effeithio'n benodol ar bobl sy'n byw mewn rhannau gwledig iawn o'r Alban sydd efallai heb fynediad at ddewisiadau eraill o ran addysg gynnar a gofal plant, a phlant ifancach a phlant sy'n fwy agored i niwed sy'n fwy tebygol o gael gofal gan warchodwr plant (Ibid). Cydnabyddir y broblem hon ymhlith gwarchodwyr plant eu hunain ac mae corff o'r enw Scottish Childminding Association yn galw am wneud hyfforddiant yn ofyniad cofrestru, er mwyn sicrhau safonau ansawdd uchel a phroffesiynoleiddio’r rôl yn fwy (ibid). Mewn adolygiad o'r enw '*The Independent Review of Scottish Early Learning and Childcare*' (2015) gwnaed argymhellion i wneud hyfforddiant ymsefydlu neu cyn-cofrestru yn ofyniad er mwyn cofrestru i ddarparu gwasanaeth gwarchod plant o dan ddeddf o’r enw *Public Services Reform Act*. Yn ogystal, roedd yr adolygiad yn galw am i warchodwyr plant gael eu cofrestru gyda'r SSSC gyda'r un amodau a mwyafrif y gweithlu dysgu cynnar a gofal plant (Ibid). Yn ogystal â chodi safonau gwasanaethau gwarchod plant, byddai cynnwys gwarchodwyr plant yn y gofrestrfa SSSC hefyd yn sicrhau buddion i warchodwyr plant, o ran eirioli dros well cyflog ac amodau a chynnig cefnogaeth gyda chymwysterau (Ibid).

3.14 Mae pob un o'r tair cofrestrfa yn codi ffi gofrestru ar unigolion, a manylir ar hyn yn Nhabl 3.3. Yn achos gweithwyr gofal plant sydd wedi'u cofrestru gyda'r SSSC, mae lefel y ffi yn dibynnu ar y categori y mae gweithwyr yn cofrestru oddi tano, ac mae yna ffioedd uwch i reolwyr a ffioedd is i ymarferwyr a gweithwyr cymorth. Er y gofynnwyd am wybodaeth am gost sefydlu a chynnal y cofrestrfeydd, nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn gyhoeddus.

**Tabl 3.3: Gofynion cofrestru ar gyfer gweithwyr dysgu cynnar a gofal plant yn yr Alban**

| Grŵp gweithlu | Corff cofrestru | Cymwysterau | Gofynion eraill | Ffioedd |
|---|---|---|---|---|
| **Athrawon y blynyddoedd cynnar** | Y Cyngor Addysgu Cyffredinol | Cymhwyster addysgu lefel gradd a statws athro cymwysedig | Ymgysylltiad parhaus ag adolygiad a datblygiad proffesiynol | Ffi gofrestru flynyddol o £65 i bob un sy'n cofrestru |
| **Gweithwyr gofal plant** | SSSC (Scottish Social Services Council) | Tair lefel cymhwyster gan ddibynnu ar lefel y swyddi: rheolwyr; ymarferwyr; gweithwyr cymorth | Dilyn cod ymddygiad yr SSSC; cwblhau dysgu proffesiynol parhaus ymhob cyfnod cofrestru | Ffi ar dair lefel: £80 i reolwyr; £35 i ymarferwyr a £25 i weithwyr cymorth. Ffi ar gyfer gwiriad Datgeliad a ffi adnewyddu bob 3-5 mlynedd |
| **Gwarchodwyr plant** | Arolygiaeth Gofal | Nid oes arnynt angen unrhyw gymwysterau | Anogir i ddilyn cod ymddygiad yr SSSC ond nid oes gofyniad | Ffi gofrestru o £28 a ffi barhaus flynyddol o £17 |

3.15 Ar hyn o bryd, mae cofrestrfa'r SSSC yn destun adolygiad, ac roedd ymgynghoriad cyhoeddus ar y gweill rhwng 20 Rhagfyr 2021 ac 14 Mawrth 2022, gyda chynigion i'w dwyn gerbron cyfarfod o'r Cyngor adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (SSSC, nid oes dyddiad b). Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys lleihau nifer y rhannau yn y gofrestrfa (o 22 i bump, gyda gweithwyr dysgu cynnar a gofal plant yn un o'r pum categori), cael gwared ar y cyfnod cofrestru sydd naill ai'n bum mlynedd neu'n dair

blynedd, a chyflwyno cyfnod cofrestru parhaus, newid y cyfnod gras y mae'n rhaid i weithwyr ymgeisio o'i fewn, a nifer o newidiadau i gymwysterau. Nid yw cynnwys gwarchodwyr plant yng nghofrestrfa'r SSSC yn un o'r newidiadau sy'n cael eu hystyried.

*Unol Daleithiau America*

3.16 Ar hyn o bryd, craidd ffocws polisïau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn yr Unol Daleithiau yw gwella ansawdd y ddarpariaeth i blant dan bump. Dechreuodd yr ymdrechion hyn tua degawd yn ôl ac maent wedi cael cymorth ariannol sylweddol a pharhaus trwy grantiau CCDF (*Child Care and Development Fund*) y taleithiau perthnasol a gwobrau o'r enw *Race to the Top-Early Learning Challenge*.

3.17 Mae elfen allweddol o'r cynlluniau i wella ansawdd yn ymwneud â datblygu gweithlu medrus a phrofiadol. Mae'r ffocws yn arbennig o gryf ar hyfforddiant, o ystyried nad oes unrhyw dalaith yn gofyn i weithwyr proffesiynol y blynyddoedd cynnar gael gradd cyn cael eu hurio (Ackerman, 2016). Sefydlwyd cofrestrfeydd ar gyfer y gweithlu fel un ffordd o gadw llygad ar y cynlluniau gwella hyn.

3.18 Mae gan fwyafrif y taleithiau (48 o’r 51) ryw fath o gofrestrfa ar gyfer y gweithlu addysg a gofal plant cynnar (McLean et al., 2021), er bod iddynt nodweddion gwahanol mewn taleithiau gwahanol. Prif swyddogaeth y cofrestrfeydd yw tracio anghenion hyfforddiant y gweithlu gofal plant ac mae gwefannau mwyafrif y cofrestrfeydd hefyd yn cynorthwyo unigolion sy'n chwilio am hyfforddiant (Ackerman, 2016). Mae hyn yn dangos ffocws clir ar wella ansawdd a datblygu staffio (National Workforce Registry Alliance, nid oes dyddiad a). Yn ogystal, mae'r cofrestrfeydd yn darparu data am faint a nodweddion gweithlu'r blynyddoedd cynnar er mwyn goleuo gwaith y rheiny sy'n llunio polisïau (National Workforce Registry Alliance, nid oes dyddiad b). Yn ystod y pandemig, cyflawnodd y cofrestrfeydd nifer o rolau ychwanegol gan gynnwys diweddaru darparwyr ynghylch cyhoeddiadau ac argymhellion yn ymwneud â Covid; cyfateb gweithwyr gyda'r rolau a oedd ar gael; a dosbarthu nawdd ychwanegol (National Workforce Registry Alliance, nd a). Ar draws y taleithiau, mae yna gyfuniad o gofrestrfeydd mandadol a gwirfoddol a rhai a chanddynt gymhelliant, ac mae hyn yn effeithio ar ba mor gynrychiadol ydynt o'r gweithlu Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (Ackerman, 2016). Mae'r cymhelliant i gofrestru a gynigir gan daleithiau'n cynnwys cymhelliant ariannol, yn ogystal â mynediad at hyfforddiant nad ydyw ar gael i'r cyhoedd (Ibid). Mewn arolwg o holl

wefannau cofrestru taleithiau'r Unol Daleithiau yn 2016, gwelwyd nad oedd unrhyw un o'r cofrestrfeydd yn codi ffi (Ibid).

*Awstralia*

3.19 Nid oes cofrestrfa yn Awstralia ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, ar lefel ffederal, ond mae mwyafrif y taleithiau'n cofrestru athrawon plentyndod cynnar, h.y. gweithwyr proffesiynol a chanddynt radd mewn plentyndod cynnar. Mae Awstralia yn cynllunio ar gyfer cyflwyno cofrestrfa i athrawon plentyndod cynnar ymhob talaith dros y tair blynedd nesaf, fel rhan o'u strategaeth ddeng-mlynedd o'r enw '*ten-year strategy to ensure a sustainable, high-quality children's education and care workforce 2022–2031*' (ACECQA, 2021) Ar y cam hwn, pan fo gofyn i athrawon plentyndod cynnar gofrestru, mae'r cofrestru'n digwydd mewn perthynas â Safonau Proffesiynol Awstralia i Athrawon, sydd wedi eu teilwra'n llai at athrawon plentyndod cynnar sy'n gweithio y tu allan i leoliadau ysgol (Ibid).

3.20 Yn rhan o'r un strategaeth, mae'n fwriad gan Awstralia gyflwyno system gofrestru i addysgwyr nad ydynt yn athrawon, dros y chwe blynedd nesaf, gyda'r un rhesymeg â chofrestru athrawon: gyda buddion i weithwyr o ran cydnabyddiaeth broffesiynol a mwy o fynediad at ddatblygiad proffesiynol; yn ogystal â buddion i gyflogwyr o ran gwirio cymwysterau gweithwyr (Ibid). Mae Awstralia yng nghamau cynnar y broses hon, ac yn ymgymryd ag ymarfer tebyg i'r adroddiad hwn, gan ymchwilio i opsiynau ar gyfer system gofrestru genedlaethol ar lefelau cymwysterau penodol, ac yn gobeithio dysgu o enghreifftiau rhyngwladol o systemau cofrestru llwyddiannus (Ibid).

3.21 Budd ychwanegol cofrestrfa yw'r posibilrwydd o gael data amser real am y gweithlu, ac i'r perwyl hwn mae Awstralia hefyd yn bwriadu ymgymryd â chyfrifiad cenedlaethol o'r gweithlu bob tair blynedd, gyda chynllun hirdymor i ddatblygu cronfa ddata genedlaethol ar gyfer y gweithlu dros y deng mlynedd nesaf (Ibid).

3.22 Dyma'r prif bwyntiau dysgu o'r astudiaethau achos o ran sut y mae cofrestrfeydd yn gweithredu mewn gwledydd eraill:

- Nid oes un ffordd o sefydlu cofrestrfa ar gyfer y gweithlu, sy'n addas i bawb. Mae'r enghreifftiau o'r Alban a'r Unol Daleithiau yn dangos ystod eang o nodweddion sy'n gallu gweithio, o ran pwy ddylid eu cynnwys yn y gofrestrfa, a ddylai fod ffi am gofrestru neu a ddylai fod yn rhad ac am ddim, a ddylai fod yn wirfoddol neu'n fandadol.

- Yn achos cofrestrfeydd sydd eisoes yn bodoli, dim ond staff sy' gweithio mewn lleoliadau cofrestredig sydd wedi eu cynnwys. Nid oes gofyn i wirfoddolwyr, a phobl sy'n gweithio mewn lleoliadau heb eu cofrestru, i gofrestru, nac ychwaith nanis ac *au pairs*, gan eu bod yn cael eu gweld fel gwasanaeth preifat.
- Mae’r modd y caiff y gweithlu ei gysyniadu fel gweithwyr sy'n gweithio mewn 'gofal' neu 'addysg', yn effeithio ar y modd y caiff y gofrestrfa ei sefydlu. Mae'r Alban yn rhoi enghraifft o weithlu sydd wedi'i gofrestru ar draws nifer o gyrff cofrestru, gyda'r rheiny sy'n gweithio mewn lleoliadau ysgol wedi'u cofrestru ym maes addysg, gwarchodwyr plant wedi'u cofrestru gyda'r Arolygiaeth Gofal a gweithwyr gofal plant wedi'u cofrestru ym maes y gwasanaethau cymdeithasol. Ar y llaw arall, yn yr Unol Daleithiau, roedd cofrestrfeydd wedi'u sefydlu'n benodol ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, ac nid oeddent yn gysylltiedig â chofrestrfeydd a fodolai eisoes, ac maent wedi eu cysylltu'n agos at ymdrechion i wella ansawdd ar raddfa ehangach.

# 4. Canfyddiadau o’r cyfweliadau

4.1 Yn yr adran hon, rhown grynodeb o'r prif ganfyddiadau o'r cyfweliadau grŵp gyda chynrychiolwyr mudiadau amrywiol yn y sector yng Nghymru. Lle y bo'n berthnasol, rydym yn cynnwys canfyddiadau o gyfweliadau gyda chynrychiolwyr yr Alban ac Awstralia er mwyn dysgu o'u profiadau nhw o sefydlu cofrestrfa ar gyfer y gweithlu. Caiff y canfyddiadau eu riportio'n ddienw a'u trefnu fesul thema.

**Diffinio'r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar a phwy ddylid eu cynnwys mewn cofrestrfa**

4.2 Roedd ymatebwyr yn cydnabod y ffaith fod y gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar yn un amrywiol, a'i fod yn cynnwys pobl sy'n gweithio mewn nifer o fathau gwahanol o leoliadau ac mewn nifer o rolau gwahanol. Er bod cytundeb ymhlith cyfranogwyr y dylid gweld y sector fel sector cyfan, gyda phob rhan o'r gweithlu'n chwarae rhan bwysig ym mywydau plant a theuluoedd, nid oedd cytundeb llwyr ynghylch pwy i'w cynnwys mewn cofrestrfa ar gyfer y gweithlu, na sut i wneud hynny.

4.3 Gwelwyd pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal dydd, megis ymarferwyr sy'n gweithio mewn *créche*, canolfannau gofal dydd llawn a lleoliadau gofal dydd sesiynol, fel adran amlwg o'r gweithlu GPChBC i'w chynnwys mewn cofrestrfa, ac fel un nad oedd yn cyflwyno unrhyw anawsterau. Teimlwyd bod grwpiau eraill yn fwy cymhleth, yn yr ystyr y byddai eu cynnwys mewn cofrestrfa yn gofyn am feddwl ymhellach am sawl mater, a dod o hyd i atebion i'r materion hyn, er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol difrifol. Isod, trafodwn y grwpiau hyn yn fanylach.

*Gweithwyr chwarae*

4.4 Mae gweithwyr chwarae yn grŵp amrywiol, fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, ac mae’n cynnwys pobl sydd â rolau lluosog a/neu sy'n gweithio mewn lleoliadau lluosog, yn o ogystal â staff mewn lleoliadau heb eu cofrestru, gwirfoddolwyr, myfyrwyr a gweithwyr tymhorol. Maent hefyd yn gweithio gyda phlant y tu hwnt i'r ystod oedran a sefydlwyd yn y cynllun 10-mlynedd, ac mae eu gwaith yn gorgyffwrdd â gwaith gweithwyr ieuenctid, sy'n cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

4.5 Esboniodd cyfranogwyr ei bod yn gymhleth diffinio ble mae gwaith chwarae yn eistedd mewn perthynas â gweddill y gweithlu GPChBC. Nid yw hyn oherwydd

ystod oedran ehangach y plant yn unig. Mae hefyd yn wir am ei fod yn wahanol i addysg a gofal o ran y dull gweithredu athronyddol (er enghraifft gwerthfawrogi chwarae ynddo’i hun yn hytrach na chanolbwyntio ar fuddion addysgol chwarae), yn ogystal â'r set sgiliau sy'n ofynnol wrth ganolbwyntio ar chwarae. Esboniodd un cyfranogwr, hefyd, y byddai integreiddio'n fwy yn cyflwyno buddion o ran deall gwaith chwarae a chael hyfforddiant gwaith chwarae ar gyfer rhannau eraill o'r gweithlu GPChBC sy'n gweithio gyda phlant o dan dair oed.

4.6 Oherwydd y nodweddion hyn, sy'n unigryw i waith chwarae, mae elfennau ymarferol cofrestru yn fwy cymhleth. Teimlai rai o'r rheiny a fu'n cymryd rhan yn y cyfweliadau fod gweithwyr chwarae yn cael eu hymyleiddio yn y gweithlu GPChBC ac y gallai eu cynnwys yn y gofrestrfa fod o gymorth er mwyn cael mwy o wybodaeth amdanynt a'u cefnogi yn eu proffesiwn. Teimlai'r cyfranogwyr hyn, felly, ei bod yn bwysig nad yw gweithwyr chwarae yn colli allan ar y cyfle i gofrestru. Ar y llaw arall, teimlai rai cyfranogwyr y byddai'n anodd cyfrif am holl arlliwiau'r grŵp hwn (gan gynnwys yr ystodau oedran gwahanol sydd wedi eu cynnwys mewn gwaith chwarae, y ffocws ar chwarae sy'n wahanol i addysg a gofal, a'r rhannau o'r gweithlu sy'n gweithio mewn lleoliadau heb eu cofrestru, sy'n weithwyr tymhorol neu'n wirfoddolwyr, fel y trafodir uchod) mewn cofrestrfa. Awgrymwyd, os nad oedd modd cynnwys gweithwyr chwarae mewn ffordd sy'n ystyried eu nodweddion amrywiol, yna na ddylent gael eu cynnwys o gwbl yn y gofrestrfa ar gyfer gofal GPChBC, oherwydd roedd yna bryderon y byddai hyn yn cael effaith andwyol ar grŵp sydd eisoes yn crebachu.

*Gwarchodwyr plant*

4.7 Mae gwarchodwyr plant yn grŵp sy'n cynrychioli gwahaniaethau pwysig, oherwydd maent yn hunangyflogedig ac mae yna ofyniad eisoes iddynt gofrestru (fel lleoliadau) gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Esboniodd rhai o'r rheiny a ymatebodd yn y cyfweliadau fod rhai gwarchodwyr plant eisoes yn gweld y fiwrocratiaeth sydd ynghlwm â'r gofyniad presennol i gofrestru fel baich, a bod yna ddirnadaeth y gallai hyn fod yn un o'r ffactorau sydd wedi achosi i rai adael y proffesiwn. Gwelwyd nifer y gwarchodwyr plant sydd wedi eu cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn gostwng o 2,025 ym mis Mawrth 2020 (AGC, 2021) i 1,100 ym mis Gorffennaf-Awst 2021 (yn ôl data'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth), ond roedd y niferoedd wedi bod yn dirywio hyd yn oed cyn y pandemig (AGC, 2021). Felly, roedd yna bryderon y byddai ychwanegu gofyniad pellach i gofrestru, yn cael effaith andwyol ar y grŵp hwn.

4.8 Cydnabu cyfranogwyr fod gan warchodwyr plant nodweddion gwahanol i weddill y gweithlu GPChBC; maent yn hunangyflogedig, yn aml yn gweithio ar eu pennau eu hunain, ac, am y rhesymau hyn, mae’r cyfleoedd iddynt gael datblygiad proffesiynol parhaus yn gyfyngedig, o bosibl. Dadleuai rai y dylid cynnwys gwarchodwyr plant yn y gofrestrfa ond teimlent y dylid mynd ati i wneud hynny'n raddol, gyda grwpiau eraill yn cael eu cofrestru yn gyntaf a gwarchodwyr plant yn cael eu cynnwys unwaith y byddai'r gofrestrfa wedi'i sefydlu'n dda. Roedd yn glir hefyd, yn ôl cyfranogwyr y cyfweliadau, y dylid trin sefyllfa gwarchodwyr plant yn ofalus iawn, gan fod nifer y gwarchodwyr plant eisoes wedi lleihau'n sylweddol ers y pandemig. Wrth siarad am warchodwyr plant y genhedlaeth hŷn yn benodol, amlygodd un cyfranogwr yr angen i sicrhau nad yw’r broses gofrestru yn cyflwyno rhwystr trwy ofyn am sgiliau TG da i gwblhau'r broses gofrestru. Cytunai lawer fod angen egluro'r buddion hefyd os ydym am gynnwys gwarchodwyr plant yn y gofrestrfa, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch mewn perthynas â'r mathau gwahanol o gofrestriadau. Pwysleisiodd un cyfranogwr bwysigrwydd defnyddio terminoleg glir hefyd, fel na fyddai teuluoedd yn drysu ynghylch statws lleoliadau penodol y maent yn eu defnyddio.

4.9 Yn yr Alban, mae gwarchodwyr plant yn cael eu cofrestru fel gwasanaeth gyda'r Arolygiaeth Gofal ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yng nghofrestrfa'r gweithlu dysgu cynnar a gofal plant gyda'r SSSC. Eglurodd cyfranogwyr cyfweliadau o’r Alban nad oes unrhyw gynlluniau i gynnwys gwarchodwyr plant yng nghofrestrfa'r SSSC yn y dyfodol, am eu bod nhw'n ymwybodol o'r baich sydd eisoes ar ysgwyddau gwarchodwyr plant fel masnachwyr unigol. Nid ydynt yn dymuno ychwanegu at hyn. Er mwyn cynnwys eu darpariaeth yn y llefydd a ariennir dan estyniad blynyddoedd cynnar yr Alban, mae gwarchodwyr plant eisoes yn gorfod bodloni'r un meini prawf o ran cymwysterau â'r rheiny sydd ar y gofrestr. Mae hyn yn golygu na fyddai unrhyw fuddion o ran uwchsgilio, o angenrheidrwydd, wrth gynnwys gwarchodwyr plant ar y gofrestr.

*Nanis*

4.10 Cyflogir nanis gan rieni, ac ar hyn o bryd gallant ddewis ymuno â Chynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Gofal Plant yn y Cartref Arolygiaeth Gofal Cymru. Roedd cyfranogwyr y cyfweliadau yn betrusgar ynghylch cynnwys nanis mewn cofrestrfa. Roedd hyn am fod rhai cyfranogwyr yn teimlo bod y buddion ychwanegol o fod yn rhan o gofrestrfa GPChBC yn aneglur, y tu hwnt i'r rheiny a geir yn barod trwy'r

cynllun cymeradwyo gwirfoddol. Rhybuddiai'r cyfranogwyr yn erbyn cyflwyno rhwystrau i weithio fel nani hefyd trwy ofyn i nanis gofrestru.

4.11 Yn yr Alban, nid yw nanis wedi eu cynnwys yn y gofrestrfa gan nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan yr Arolygiaeth Gofal ac felly maent y tu hwnt i gylch gwaith y gofrestr. Esboniodd un cyfranogwr yng nghyfweliadau'r Alban eu bod yn 'weithlu hollol breifat' ac nad oes unrhyw gynlluniau i newid hynny ar hyn o bryd.

*Staff a gyflogir mewn lleoliadau heb eu cofrestru*

4.12 Cynigiodd cyfranogwyr y cyfweliadau awgrymiadau gwahanol ynghylch cynnwys pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau heb eu cofrestru. Roedd rhai yn teimlo bod yr elfen hon yn bwysig oherwydd byddai'n fuddiol gwybod mwy am y gweithwyr hyn a’u cefnogi'n well, ond ni welai eraill fod hyn yn ymarferol. Wrth drafod p'un ai y dylid cynnwys gweithwyr mewn lleoliadau heb eu cofrestru mewn cofrestrfa ai peidio, aeth cyfranogwyr ati i feddal p'un ai y dylai ffocws y gofrestrfa fod ar gymwysterau a rolau gweithwyr unigol neu fathau o leoliadau. Esboniodd un cyfranogwr fod cymwysterau gweithiwr yn faen prawf pwysicach dros eu cynnwys mewn cofrestrfa ar gyfer y gweithlu, gan nodi bod pobl yn dueddol o fynd i weithio mewn lleoliadau penodol yn rhannol trwy lwc neu am fod cyfle wedi codi. Aethant ati i ychwanegu y gallai gweithiwr cymwys iawn fod yn gweithio mewn lleoliad heb ei gofrestru oherwydd bod y swydd benodol honno'n eu siwtio, ac na ddylent gael eu heithrio o gofrestrfa oherwydd hynny. Byddai cynnwys gweithwyr mewn lleoliadau heb eu cofrestru yn cyflwyno anawsterau o ran logisteg, am fod cymaint ohonynt a, gan eu bod wedi eu cyflogi mewn lleoliadau heb eu cofrestru, mae'n anodd dod o hyd iddynt.

4.13 Yn yr Alban, mae'r ddeddfwriaeth sy’n ymwneud â chofrestru yn seiliedig ar leoliad, a'r gofrestrfa yn canolbwyntio ar leoliadau cofrestredig yn unig. Caiff gweithwyr eu cynnwys gan ddibynnu a ydynt wedi eu cyflogi mewn lleoliadau sy'n cael eu rheoleiddio gan yr Arolygiaeth Gofal ai peidio. Mae'r dull hwn o weithredu yn cydymffurfio ag un o brif swyddogaethau'r gofrestrfa, a ddisgrifiwyd yn y cyfweliadau, sef y swyddogaeth ddiogelu. Mae hefyd yn alinio â phrofiad y cofrestrfeydd yn yr Unol Daleithiau, sy'n cynnwys pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau cofrestredig yn unig mewn cofrestrfeydd ar gyfer y gweithlu.

*Gweithwyr a gyflogir mewn rolau lluosog*

4.14 Amlygodd cyfranogwyr y cyfweliadau y ffaith fod gan lawer o bobl yn y gweithlu rolau lluosog. Er enghraifft, efallai bod rhywun y gweithio fel gweithiwr cymorth y blynyddoedd cynnar yn ystod y dydd ac fel gweithiwr chwarae y tu allan i oriau ysgol. Mewn perthynas â hyn, cododd cyfranogwyr y mater fod rhannau o'r gweithlu GPChBC eisoes wedi'u cofrestru, er enghraifft mae athrawon y blynyddoedd cynnar a gweithwyr cymorth wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg a gwarchodwyr plant wedi'u cofrestru (fel lleoliad) gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Rhoddodd cyfranogwyr y cyfweliadau ambell awgrym ynghylch sut i ddarparu ar gyfer hyn, gan gynnwys cofrestru pob gweithiwr unwaith yn unig o dan eu prif rôl, a'r brif rôl honno wedi'i phennu gan gyfran yr amser y mae'n ei dreulio mewn rolau gwahanol. Byddai gofyn cael system ar gyfer nodi rolau eraill neu gydlynu gyda chyrff cofrestru eraill er mwyn osgoi'r baich o orfod cofrestru ddwywaith. Nodwyd y dull gweithredu mewn gofal cymdeithasol, fel enghraifft o ddarparu ar gyfer rolau gwahanol o fewn yr un corff cofrestru. Yn y maes hwn, mae pobl a chanddynt rolau gwahanol yn cofrestru ar gyfer un rôl, ar sail yr amser y maent yn ei dreulio ymhob rôl, ond mae eu swyddi eraill yn cael eu cofnodi hefyd. Safbwynt arall gan rai oedd ei bod yn bwysig cofrestru pob gweithiwr o dan bob rôl gyda'r corff cofrestru perthnasol, waeth faint o amser y mae'n ei dreulio ymhob swydd.

4.15 Unwaith eto, mae profiad yr Alban yn darparu enghraifft o sut i drafod rolau deuol. Yn gyffredinol, mae gofyn i weithwyr gofrestru o dan bob rôl (er eu bod yn talu un ffi gofrestru yn unig, fel y trafodir isod), onid ydynt wedi'u cofrestru gyda chorff rheoleiddio arall fel y Cyngor Addysgu Cyffredinol, ac yn yr achos hwnnw nid oes angen iddynt gofrestru gyda'r SSSC. [2] Esboniodd un cyfranogwr mai'r rhesymeg y tu ôl i'r rheol hon, yw osgoi sefyllfa lle mae cyrff gwahanol yn rheoleiddio’r un gweithiwr yn wahanol. Mae gan y gofrestr ei hun dair lefel cofrestru sy'n gysylltiedig â'r tri chategori rôl eang: rheolwyr, ymarferwyr a gweithwyr cymorth. Wrth gwrs, mae nifer y rolau y gall pobl eu cael yn fwy na'r tri chategori syml hyn ac mae i'r gwahaniaethau fwy o arlliwiau. Fodd bynnag, er bod teitlau swyddi unigol efallai'n fwy amrywiol, mae'n rhaid i weithwyr osod eu hunain yn y categori mwyaf addas o'r tri, ar sail lefel eu cymwysterau. Dywedodd un cyfranogwr yng nghyfweliadau'r Alban y gallai fod yn fuddiol cael mwy o gategorïau, yn unol â datblygiad mathau

[2]Mae gwefan yr SSSC yn rhestru pob corff rheoleiddio y mae'r rheol hon yn berthnasol iddynt, ar

gwahanol o rolau yn y sector. Serch hynny, teimlent hefyd fod symlrwydd cael nifer fechan o gategorïau cofrestru yn fantais.

**Cysyniadu'r gweithlu a statws**

4.16 Mae amrywiaeth a lluosogrwydd rolau a gwmpasir gan y gweithlu GPChBC hefyd yn codi materion ynghylch cysyniadu gweithwyr. Yn hanesyddol, meddyliwyd am ofal ac addysg fel disgyblaethau ar wahân, ac mae'r dull hwn o weithredu wedi gwneud i ni edrych ar y gweithlu fel dwy ran wahanol. Er gwaethaf ymdrechion i integreiddio'r ddwy elfen, gan fod y ddwy yn angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel ar gyfer y blynyddoedd cynnar, mae'r ddadl yn parhau mewn sawl gwlad. Yn ei thro, mae gan y ffordd y mae gweithwyr GPChBC yn cael eu cysyniadu, oblygiadau pwysig ar gyfer sefydlu cofrestrfa; a ddylid gweld rôl fel un sy'n disgyn o fewn y cylch gwaith 'gofal' neu'r cylch gwaith 'addysg', a ddylai'r gofrestrfa ddod o dan fudiad sydd eisoes yn bodoli, ac, os felly, pa un, neu a ddylid sefydlu cofrestrfa hollol newydd ac ar wahân.

4.17 Roedd yn amlwg o'r cyfweliadau nad yw'r ddadl ynghylch gofal neu addysg wedi'i setlo, o bell ffordd, hyd yn oed yng Nghymru. Awgrymodd rai o'r cyfranogwyr y byddai Gofal Cymdeithasol Cymru mewn lle da i fod yn gyfrifol am y gofrestrfa, gan eu bod eisoes wedi sefydlu cydberthnasau gyda'r sector a gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, a gan fod ganddynt brofiad o gofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol. Roeddent hefyd yn cydnabod y byddai angen marchnata'r cam hwn yn ofalus o hyd, er mwyn sicrhau bod y sector blynyddoedd cynnar yn teimlo ei fod wedi ei gynnwys yn iawn ac nad elfen wedi'i hychwanegu mohono.

4.18 Fodd bynnag, nid oedd pob un yn credu mai Gofal Cymdeithasol Cymru fyddai'n ffitio'r gweithlu GPChBC yn naturiol, am fod rhai segmentau o'r gweithlu GPChBC yn disgyn y tu allan i'w gylch gwaith. Mae hyn yn wir yn achos gweithwyr chwarae, sy'n gweithio gydag ystod oedran lawer ehangach. Yn ogystal, amlygodd rhai o gyfranogwyr y cyfweliadau'r ffaith y gallai lleoli'r gofrestr o fewn gofal cymdeithasol rwystro’r ymdrechion i integreiddio addysg a gofal yn llwyr yn y blynyddoedd cynnar, ac felly efallai bod angen cofrestrfa ar wahân sy'n dod ag addysg a gofal ynghyd ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

4.19 Un o'r gwersi allweddol o'r cyfweliadau gyda chynrychiolwyr yr Alban yw bod y gweithlu dysgu cynnar a gofal plant wedi'i gofrestru o fewn gofal, ochr yn ochr â gofal cymdeithasol i oedolion a gofal cymdeithasol i blant, ond serch hynny mae yna

ymdrech i gydnabod ei rôl addysgol ac i'w phwysleisio. Mae hyn yn dilyn ymdrech ehangach ar lefel genedlaethol i gydnabod y ffaith fod y gwaith yn y blynyddoedd cynnar yn rhan o gwricwlwm o'r enw Scottish Curriculum for Excellence, sy'n dechrau yn dair oed. Dywedodd un cyfranogwr o'r Alban fod llawer yn y sector yn teimlo eu bod wedi'u halinio'n well at addysg na gofal nawr, o gymharu â'r adeg pan sefydlwyd y gofrestrfa. Felly, er i'r cyfranogwr ddweud bod y gofrestrfa'n gweithio'n dda, roedd hefyd yn cydnabod bod y ffordd y mae wedi esblygu wedi arwain at dri chorff gwahanol sy'n gyfrifol am gofrestru rhannau gwahanol o'r gweithlu. Aethant ymlaen i ddweud, petaent yn dechrau o'r dechrau'n deg, yna byddent yn rhoi mwy o ystyriaeth i leoli'r gofrestrfa dysgu cynnar a gofal plant mewn addysg yn hytrach na gofal, gan fod eu dealltwriaeth o addysg gynnar a gofal plant yn wahanol nawr.

4.20 Awgrym arall, a fyddai'n golygu bod cofrestru yn annibynnol i ofal ac addysg, oedd i'r cyfrifoldeb dros y gofrestrfa eistedd gydag awdurdodau lleol. Fodd bynnag, roedd yna bryderon cryf na fyddai'r gofrestrfa â chymaint o awdurdod pe na bai'n cael ei chanoli. Yn ogystal, mae Awstralia'n cynnig enghraifft o'r heriau sy'n codi wrth geisio sicrhau cysondeb mewn cofrestrfa nad ydyw wedi'i chanoli.

4.21 Barn olaf oedd y dylid ystyried pob rôl mewn GPChBC fesul achos a'u cofrestru gyda'r mudiad priodol, gan ddibynnu a ydyw'n disgyn o fewn cylch gwaith gofal neu addysg. Fodd bynnag, mae yna gymhlethdodau i'r opsiwn hwn hefyd, oherwydd mae yna rolau lle nad yw'r gwahaniaeth hwn mor amlwg a byddai gofyn penderfynu pwy sy'n gyfrifol am benderfynu am yr achosion hyn. Amlygwyd achos gweithwyr chwarae, ond mae'r un peth yn wir am achosion eraill, er enghraifft staff sy'n gweithio mewn sawl swydd.

**Cymwysterau**

4.22 Nod pennaf y cynllun strategol 10-mlynedd yw datblygu gweithlu GPChBC medrus iawn, trwy lwybrau dilyniant clir a gefnogir gan gymwysterau cydnabyddedig a datblygiad proffesiynol parhaus (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio yn y maes hwn yn barod a bu'r cyfranogwyr yn trafod y testun hwn yn drwyadl. Un o fuddion posibl y gofrestrfa, a drafodwyd gan y rhanddeiliaid, oedd rhoi cydnabyddiaeth broffesiynol i weithlu sy'n cynnwys gweithwyr profiadol iawn nad ydynt yn cael cydnabyddiaeth ffurfiol. Gwelai rhai'r gofrestrfa fel offeryn posibl ar gyfer cefnogi gweithwyr sy'n symud rhwng rolau wrth iddynt weithio tuag at y cymwysterau gofynnol.

4.23 Fodd bynnag, wedi tynnu ar enghraifft cofrestru gweithwyr cymorth dysgu gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, rhybuddiai rhanddeiliaid ynghylch pwysigrwydd egluro'r rheolau yn ymwneud â chymwysterau gofynnol adeg sefydlu'r gofrestr yn hytrach na mynd yn ôl i roi sylw i hyn yn nes ymlaen. Wrth feddwl am y profiad o ofyn i Gyngor y Gweithlu Addysg ddod â gweithwyr cymorth arno i'r gofrestr, heb drafod y gofynion o ran cymwysterau yn gyntaf, dywedodd un rhanddeiliad fod y broses wedi arwain at sefyllfa lle y gallai gweithwyr mewn lleoliadau gwahanol wynebu gofynion gwahanol o ran cymwysterau, er gwaethaf y ffaith eu bod yn gwneud yr un gwaith.

4.24 Wrth ystyried a ddylid gosod gofynion o ran cymwysterau cyn caniatáu i weithwyr gofrestru, a sut i wneud hynny, mae'n bwysig cofio, yn achos y gweithlu GPChBC, fod cymwysterau eisoes wedi eu gosod yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid oes gofyn i bob ymarferydd feddu ar gymwysterau gofynnol cyn dechrau gweithio yn y sector. A dweud y gwir, amlygodd cyfranogwyr bwysigrwydd sicrhau nad yw cymwysterau yn dod yn rhwystr i'r sector, gan bwysleisio ei bod yn bwysig denu'r bobl iawn i weithio ym maes GPChBC yn anad dim. Dywedwyd ei bod hefyd yn bwysig osgoi colli staff mwy profiadol ac y gallai'r syniad o orfod dychwelyd at addysg ddigalonni staff o’r fath. Un ateb a gynigiwyd oedd gweithredu ar sail 'cymhwysedd wedi’i gadarnhau’. Mae hyn eisoes ar waith yn y sector gofal cymdeithasol ac mewn gwledydd eraill, fel Awstralia. Byddai gweithredu ar sail 'cymhwysedd wedi’i gadarnhau' yn caniatáu i bobl heb gymwysterau ffurfiol gofrestru gan ddefnyddio'u profiad gwaith fel prawf o'u cymhwysedd.

4.25 Ateb arall i sicrhau nad yw cymwysterau gofynnol yn dod yn rhwystr, yw rhoi cyfnod o ras i weithwyr er mwyn ennill y cymwysterau gofynnol, ar ôl y pwynt cofrestru. Dyma un o nodweddion cofrestrfa'r Alban, lle mae gweithwyr yn cael cyfnod gras o bum mlynedd i ennill y cymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer y lefel y maent wedi’u cofrestru oddi tani. Os nad ydynt wedi cwblhau'r cymwysterau ar ôl y cyfnod hwn, yna cânt eu tynnu oddi ar y gofrestr.

4.26 Yn yr un modd, amlygodd rhanddeiliaid yr angen i chwalu rhwystrau i bobl sydd wedi ennill cymwysterau cywerth mewn gwledydd eraill. Yn yr Alban, mae'r SSSC yn gyfrifol am adolygu dysgu blaenorol gweithwyr o wledydd eraill neu o ardaloedd eraill o'r Deyrnas Unedig, ac am benderfynu a ydyw'n bodloni'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol yn yr Alban. Yn yr un modd, yn Awstralia, mae corff ar wahân yn gyfrifol am adolygu cymwysterau gweithwyr sy'n dod o dramor ac am

benderfynu a ydynt yn bodloni'r gofynion ai peidio. Yng Nghymru, mae gan Gofal Cymdeithasol Cymru rôl debyg ac mae gan y corff gynllun peilot ar waith yn ymwneud â chymwysterau rhyngwladol cywerth. Gallai’r cynllun hwn fod yn gymorth i ddatrys y mater hwn. Fodd bynnag, yn achos penodol cymwysterau gofal plant, mae yna ymwybyddiaeth efallai na fydd rhai cymwysterau yn cael eu cydnabod trwy'r fframwaith cymwysterau ac y gallai fod angen i bobl sy'n dod o dramor ymgymryd â chymwysterau lefel 3 ychwanegol.

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

4.27 Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod mai un o fuddion posibl cofrestrfa yw'r cyfle i gefnogi gweithiwyr i uwchsgilio a chefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus. Gallai'r cymorth hwn fod ar sawl ffurf. Ar y lefel symlaf, gellid defnyddio'r gofrestrfa fel offeryn i gofnodi a chadw llygad ar oriau o ddatblygiad proffesiynol parhaus, a byddai hyn o fudd i gyflogeion a chyflogwyr. Er enghraifft, aeth un cyfranogwr ati i gysyniadu'r gofrestrfa yn unol â'r ffordd y maent yn gweithio yn yr Unol Daleithiau, lle maent yn siop-un-stop er mwyn i unigolyn weld popeth sy'n ymwneud â nhw'u hunain, tracio'r hyfforddiant o gymorth cyntaf a diogelu i ddatblygiad proffesiynol parhaus ehangach, a'u cefnogi i gynllunio'u llwybr gyrfa a chwilio am rôl newydd. Ar lefel fwy datblygedig, roedd cyfranogwr arall yn credu y gallai cofrestrfa hwyluso mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus yn uniongyrchol ac arwain at ffordd fwy effeithlon o ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus, trwy gyfateb y cyflenwad a'r galw yn fwy effeithiol.

4.28 Er bod rhanddeiliaid yn cytuno, ar y cyfan, â buddion cyflwyno oriau o ddatblygiad proffesiynol parhaus fel gofyniad er mwyn cynnal cofrestriad, roddent yn awyddus i amlygu nifer o ffactorau y mae arnynt angen sylw er mwyn i hyn weithio. Yn gyntaf, ystyriwyd yr angen i sicrhau bod datblygiad proffesiynol parhaus yn hygyrch i weithwyr ar draws y gweithlu GPChBC gan fod y cyfleoedd yn anghyfartal ar hyn o bryd. Mae sicrhau bod datblygiad proffesiynol parhaus yn hygyrch yn golygu sicrhau bod gweithwyr yn cael yr amser y mae arnynt ei angen i ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus. Mae hefyd yn golygu cael gwared ar rwystrau ariannol er mwyn i'r gweithiwr unigol allu cofrestru ar gyfer gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus a hefyd er mwyn i'r lleoliad allu talu am weithwyr i gyflenwi yn lle staff. Awgrymwyd, petai datblygiad proffesiynol parhaus yn dod yn ofyniad er mwyn cynnal cofrestriad, yna y dylai fod yn ofyniad i gyflogwyr sicrhau bod eu gweithwyr yn cael yr amser angenrheidiol i gwblhau'r oriau o ddatblygiad

proffesiynol parhaus. Mae hyn yn amlygu'r angen i unrhyw ofyniad o ran oriau o ddatblygiad proffesiynol parhaus, ddod gyda buddsoddiad yn y ddarpariaeth datblygiad proffesiynol parhaus, er mwyn osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

4.29 Mater arall a godwyd gan randdeiliaid oedd yr angen i ystyried diffiniad cynhwysol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, gan gydnabod nad yw datblygiad proffesiynol parhaus yn ymwneud â dysgu ffurfiol mewn cyrsiau yn unig, ond ei fod hefyd yn ymwneud â dysgu trwy weithgareddau sy'n gysylltiedig â gwaith, darllen unigol, arferion myfyriol neu gysgodi.

4.30 Unwaith eto, bu cyfranogwyr y cyfweliadau yn tynnu ar wersi gan gofrestrfeydd eraill yng Nghymru, er enghraifft cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol. Mae gofyn i weithwyr gofal cymdeithasol gofnodi eu datblygiad proffesiynol parhaus bob tair blynedd, wrth iddynt adnewyddu eu cofrestriad. Mae nifer yr oriau angenrheidiol o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn gysylltiedig â lefel swydd y gweithiwr: rhaid i reolwr ddangos 90 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus a rhaid i weithiwr ddangos 45 awr. Esboniodd un cyfranogwr mai'r her yw sicrhau bod pobl yn cofnodi eu datblygiad proffesiynol parhaus yn rheolaidd, yn hytrach nag ar ddiwedd cyfnod eu cofrestriad yn unig.

4.31 Yng ngolau hyn, a'r hyn a grybwyllir uchod o ran mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus, a'r diffiniad ar ei gyfer, mae'n bwysig dweud bod gwaith parhaus ar y gweill yn y maes hwn, mewn gofal cymdeithasol. Mae hyn yn ymwneud yn rhannol â hwyluso mynediad at ddysgu ar-lein trwy borth ar gyfer gweithwyr proffesiynol cofrestredig. Mae hyn hefyd yn ymwneud ag adolygu diffiniad datblygiad proffesiynol parhaus, gan bwysleisio pwysigrwydd y ffordd y mae'n gwella arfer gweithwyr ac, yn y pendraw, y canlyniadau i'r unigolion y maent yn darparu ar eu cyfer.

4.32 Cyflwynwyd cofrestriad cynorthwywyr addysgu fel enghraifft er mwyn rhybuddio nad yw cyflwyno cofrestrfa, ynddo'i hun, yn sicrhau gwelliannau mewn datblygiad proffesiynol parhaus. Yn achos cynorthwywyr addysgu, nid yw hyn yn ganlyniad i ddiffyg darpariaeth datblygiad proffesiynol parhaus na diffyg galw am ddatblygiad proffesiynol parhaus ymhlith gweithwyr, ond am fod y gweithlu cyfan yn denau ac nad oes amser ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Esboniodd un cyfranogwr, er enghraifft, nad yw cynorthwywyr addysgu yn gallu defnyddio oriau gwaith ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus oherwydd y pwysau sydd arnynt o ran amser. Fodd

bynnag, nododd y cyfranogwr fod poblogrwydd sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus y tu allan i oriau gwaith yn dangos bod galw cryf am ddatblygiad proffesiynol parhaus ymhlith cynorthwywyr addysgu. Dylid defnyddio'r grant dysgu proffesiynol i ysgolion i ariannu athrawon a chynorthwywyr addysgu mewn ysgolion i ymgysylltu â dysgu proffesiynol. Fodd bynnag, cyflogir cynorthwywyr addysgu dan amodau a thelerau awdurdodau lleol ac mae eu mynediad at ddatblygiad proffesiynol parhaus yn dibynnu ar yr ysgol unigol lle y maent wedi eu cyflogi. Yn wahanol i athrawon, nid yw cynorthwywyr addysgu a gweithwyr cymorth yn cael adolygiadau perfformiad bob tro. Mae hyn yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio rhoi sylw iddo mewn ysgolion a bydd hefyd yn cael ei amlygu yn yr Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol sy'n cael ei chyd-adeiladu gyda'r sector.

4.33 Wrth edrych ar y modd y caiff datblygiad proffesiynol parhaus ei gynnwys yng nghofrestrfeydd gwledydd eraill, mae'r gofrestr i athrawon plentyndod cynnar yn Awstralia yn cynnwys gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus, fodd bynnag mae faint o ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n ofynnol yn amrywio yn ôl talaith a thiriogaeth. Yn achos cofrestrfa'r Alban, mae gofyn i weithwyr gwblhau nifer ofynnol o oriau o ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n ymwneud yn benodol â diogelu, er bod adolygiad ar y gweill ar hyn o bryd ynghylch p'un ai y dylid cynnwys elfennau eraill o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y gofynion cofrestru ai peidio. Yn ogystal, fel yr esboniodd un cyfranogwr, rhan o gylch gwaith yr SSSC yw datblygu'r gweithlu. O dan y cylch gwaith hwn, mae'n creu adnoddau ac yn cefnogi unigolion gyda'u dysgu parhaus, ond mae hefyd yn cyfeirio pobl tuag at gynigion cenedlaethol eraill. I'r perwyl hwn, mae'r SSSC hefyd yn adnabod bylchau posibl mewn sgiliau, ac mae'r gwaith hwn wedi'i oleuo gan arolygon rhanddeiliaid ynghylch anghenion sy'n amlygu. Mae'n cyhoeddi adroddiadau rheolaidd am sgiliau'r gweithlu bob dwy i dair blynedd.

**Cofrestrfa rad ac am ddim neu sylfaen ffioedd**

4.34 Teimlai mwyafrif rhanddeiliaid Cymru yn gryf y dylai unrhyw gofrestrfa fod yn rhad ac am ddim. Roedd yna bryderon y byddai codi ffi gofrestru yn cael effaith andwyol ar faterion recriwtio a chadw, ar adeg pan fo llawer o weithwyr wedi gadael y sector yn barod. Tynnwyd sylw pellach at y ffaith fod gweithwyr GPChBC yn ennill yr isafswm cyflog neu gyflog isel iawn, yn gyffredinol.

4.35 Fodd bynnag, mynegodd rhai'r farn na fyddai ffi fechan yn broblem i fwyafrif y gweithwyr os ydynt yn ei thalu'n flynyddol neu unwaith bob ychydig flynyddoedd. Yn ogystal, cyflwynwyd y pwynt fod codi ffi yn rhoi rhywfaint o hygrededd i'r cofrestriad, a’i fod yn dod yn fwy o ymrwymiad a hefyd yn tanlinellu'r ffaith fod y gweithwyr yn talu am wasanaeth y dylent elwa arno. Gan ddibynnu ar y ffordd y mae'r gofrestrfa yn cael ei hariannu, awgrymwyd y gallai ffioedd hefyd fod yn berthnasol i'r hyn y gellir ei gynnig o ran cymorth gyda datblygiad proffesiynol parhaus.

4.36 Ar hyn o bryd mae Cyngor y Gweithlu Addysg a Gofal Cymdeithasol Cymru yn codi ffi am gofrestru. Bu cyfranogwyr yn trafod sut y mae cyflogwyr neu awdurdodau lleol yn talu ffioedd rhai proffesiynau. Mae hyn hefyd yn wir am rai o'r gweithwyr yn Awstralia, lle codir ffi gofrestru, er bod y rhain yn amrywio yn ôl talaith a thiriogaeth. Weithiau, mae’r llywodraeth neu gyflogwyr mawr hefyd yn cynnig cymhorthdal tuag at y ffioedd, i gydnabod y tâl isel y mae'r gweithlu'n ei gael ac i osgoi unrhyw faich ychwanegol, yn enwedig ers dechrau pandemig Covid-19. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr cyfweliadau o Gymru o'r farn y byddai'n annhebygol fod lleoliadau yn gallu talu unrhyw ffi gofrestru o ystyried ansicrwydd ariannol y sector.

4.37 Un dull o weithredu'r ffioedd cofrestru yw gosod y lefelau i gydymffurfio'n fras â graddau cyflog, fel bod gweithwyr sy'n debygol o fod ar y cyflogau isaf yn talu'r lleiaf. Er enghraifft, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn codi ffioedd gwahanol gan ddibynnu ar rôl pob unigolyn. £30 i weithiwr gofal cymdeithasol ac £80 i reolwr, y flwyddyn. Yn yr un modd, yn yr Alban lle mae yna dair ffi wahanol ar gyfer y tri chategori o weithwyr dysgu cynnar a gofal plant, mae’r rheolwyr yn talu £80, ymarferwyr yn talu £30 a gweithwyr cymorth yn talu £25. (Yn ogystal â'r ffi gofrestru gychwynnol, mae gweithwyr yn talu ffi flynyddol am y pum mlynedd gyntaf ac yna ffi bellach i adnewyddu eu cofrestriad). Awgrymodd cyfranogwyr y cyfweliadau nad ydynt wedi gweld problem gyda'r ffioedd yn yr Alban, a bod y gweithlu'n ymddangos fel petai'n derbyn bod cofrestriad yn rhan o fod yn ymarferydd a bod pobl yn cael cymorth ac adnoddau yn ddychwelyd.

4.38 Pwynt olaf a drafodwyd yn y cyfweliadau gyda'r cynrychiolwyr o'r Alban, oedd y cynllun cychwynnol i'r ffioedd cofrestru ddarparu digon o gyllid i dalu am gostau cynnal y gofrestrfa yn y pendraw. Er gwaethaf y ffaith i'r gofrestrfa gael ei chyflwyno ddau ddegawd yn ôl, ni wireddwyd y nod hwn eto. Esboniodd un cyfranogwr fod hyn oherwydd eu bod wedi tanamcanu'r cyllid y byddai ei angen i gynnal y gofrestrfa, er bod rhai o'r costau uwch yn debygol o fod wedi codi yn ganlyniad i weithluoedd

eraill sydd wedi eu cynnwys yn eu cofrestrfa yn hytrach na'r gweithlu dysgu cynnar a gofal plant.

**Cofrestriad mandadol neu wirfoddol**

4.39 Ar y cyfan, credai rhanddeiliaid y dylai cofrestrfa o'r fath fod yn fandadol; roedd yna bryderon, petai'n wirfoddol, nad y rheiny a allai elwa fwyaf o gofrestru fyddai'n dewis cofrestru. Roedd rhai o'r rhanddeiliaid hefyd yn dadlau y byddai dull gweithredu gwirfoddol yn tanseilio buddion posibl eraill cofrestrfa, er enghraifft darparu data cyflawn a chyson am y gweithlu. Fodd bynnag, mewn un cyfweliad, codwyd pryder y gallai dull mandadol rwystro pobl rhag ymuno â'r gweithlu/aros yn y gweithlu, ac roedd yna ogwydd tuag at ddull mwy gwirfoddol a chanddo fuddion clir.

4.40 Yn achos yr Alban, mae cofrestru'n fandadol. Mae hyn yn adlewyrchu prif rôl y gofrestrfa, sef diogelu, fel yr esboniodd un cyfranogwr yng nghyfweliadau'r Alban. Yn Awstralia, mae cofrestru'n fandadol i bob athro plentyndod cynnar yn y ddwy dalaith fwyaf. Fodd bynnag, mewn strategaeth o'r enw '*National Children's Education and Care Workforce Strategy (2022-2031)*' y bwriad yw sicrhau bod hyn yn gyson ar draws pob talaith yn y pendraw (ACECQA, 2021).

**Cyd-destun ehangach y pandemig, cyflogau isel ac amodau gwaith gwael**

4.41 Dylid sefydlu cofrestrfa ar gyfer y gweithlu GPChBC o fewn y cyd-destun polisi ehangach sy'n effeithio ar y sector blynyddoedd cynnar. Un ystyriaeth na ellir ei hosgoi yw effaith pandemig Covid-19 ar ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar, a hynny o ran y cyflenwad a'r galw.

4.42 O ran y galw, mae presenoldeb is a/neu bresenoldeb afreolaidd mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar yn ystod y pandemig ac ar ôl y pandemig wedi arwain at fwy o heriau yn y ffordd y mae'r lleoliadau'n gweithredu, ac at ansicrwydd ariannol i'r lleoliadau. Fodd bynnag, dywedodd sawl un o'r rheiny a fu'n rhan o'r cyfweliadau fod argyfwng Covid-19 hefyd wedi amlygu rôl hanfodol sector y blynyddoedd cynnar i'r cyhoedd yn ehangach, a bod hynny'n beth cadarnhaol. Felly, teimlai llawer o bobl fod hon yn adeg amserol i feddwl am sefydlu cofrestrfa ar gyfer y gweithlu. Yn eu barn nhw, gallai cofrestrfa gynnig cyfle i gynyddu statws y gweithlu GPChBC a chael data gwell i'w defnyddio i drosoli ymdrechion pellach mewn perthynas ag eiriolaeth a pholisi.

4.43 O ran cyflenwad, fodd bynnag, teimlai llawer o'r cyfranogwyr ei bod yn bwysig cydnabod bod pandemig Covid-19 wedi gwneud problemau a fodolai cyn y

pandemig gymaint â hynny'n waeth. Y tu hwnt i ystyried pa mor briodol fyddai gofyn i weithwyr sydd ar gyflog isel dalu ffi gofrestru, fel y trafodwyd uchod, gwelwyd materion yn ymwneud â recriwtio a chadw staff yn gwaethygu yn ystod y pandemig, ac roedd cyfranogwyr yn pryderu y gallai cofrestrfa fod yn elfen ychwanegol sy'n rhwystro pobl rhag ymuno â'r sector blynyddoedd cynnar neu rhag aros yn y sector. Felly, ar adeg pan fo'r sector yn dal i golli ymarferwyr i sectorau eraill yn yr economi, roedd yna rywfaint o bryder ynghylch yr amseru.

4.44 Mater allweddol a ddaeth i'r amlwg trwy gydol y cyfweliadau oedd y cyflogau isel a'r amodau gwaith gwael y mae'r gweithlu GPChBC yn eu hwynebu, ac ni ellir anwybyddu'r rhain mewn unrhyw sgwrs am broffesiynoldeb. Mae'r broblem ynghylch cyflogau isel yn bwydo i mewn i faterion recriwtio a chadw, ac yn arwain at nifer o bryderon ynghylch rhwystrau a chanlyniadau anfwriadol posibl y gallai cofrestrfa eu hachosi. Er enghraifft, yn erbyn cefndir o gyflogau isel, roedd yna bryderon y gallai cyflwyno mwy o fiwrocratiaeth neu fwy o gamau i'r broses, achosi i weithwyr symud i weithio mewn sectorau eraill fel manwerthu, lle y gallent gael cyflogau gwell a lle nad oes gofyn cofrestru. Yn ogystal, gwrthwynebai mwyafrif y rhanddeiliaid godi ffi gofrestru ar sail cyflogau isel y gweithlu. Mae hyn yn cydymffurfio â chanfyddiadau arolwg diweddar lle nodwyd cyflog isel fel un o'r prif resymau dros faterion recriwtio a chadw (Stedman a Lewis, 2022).

4.45 Mae'r sefyllfa yn yr Alban hefyd yn codi mater posibl yn ymwneud â chyflogau isel ac yn codi pryder y gallai cyflwyno cofrestrfa, petai'n llwyddo i gynyddu proffesiynoldeb a chymwysterau'r gweithlu, arwain at sefyllfa lle bo gweithwyr yn gadael lleoliadau preifat, gwirfoddol ac annibynnol er mwyn gweithio mewn ysgolion, ble mae'r cyflogau a'r amodau yn dueddol o fod yn well o'u cymharu â lleoliadau eraill y blynyddoedd cynnar. Byddai sefyllfa o'r fath yn arwain at fwy o faterion recriwtio a chadw.

4.46 Yn gyffredinol, gwelwyd bod gwella cyflogau yn rhan hanfodol o unrhyw ymdrech i wella statws gweithwyr GPChBC. Roedd cyfranogwyr yn cydnabod yn eang y byddai buddion posibl y gofrestrfa i weithwyr - gwella cydnabyddiaeth a statws ochr yn ochr â phroffesiynoleiddio - yn gyfyngedig oni fyddai cyflog ac amodau gwaith hefyd yn cael sylw ar yr un pryd. Eglurodd rhai o'r cyfranogwyr fod cofrestriad yn chwarae rhan fechan iawn os mai'r nod yw proffesiynoleiddio'r gweithlu, ac mai'r hyn sy'n angenrheidiol mewn gwirionedd yw ariannu lleoliadau ar lefel sy'n eu galluogi i dalu cyflog rhesymol i bobl am y cymwysterau sydd ganddynt.

**Awgrymiadau ar gyfer cyflwyno'r gofrestrfa**

4.47 Cafwyd awgrymiadau gan gyfranogwyr ynghylch sut y gellid cyflwyno cofrestrfa'n effeithiol. Yn gyntaf, pwysleisiwyd pwysigrwydd cyfathrebu diben a buddion cofrestrfa yn glir. Gwelwyd bod dull graddol, sy'n rhoi digon o amser a rhybudd i weithwyr yn bwysig hefyd. Er enghraifft, awgrymodd sawl cyfranogwr y gallai treialu neu gyflwyno'r gofrestrfa'n raddol, gan ddechrau gydag un maes, un grŵp yn y gweithlu GPChBC neu reolwyr mewn lleoliadau meithrin, gynyddu ei siawns o lwyddo. Dywedodd cyfranogwyr a chanddynt wybodaeth am y dull a ddefnyddiwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru, sef cofrestru rheolwyr yn gyntaf ac yna symud ymlaen at weithwyr llinell flaen, fod y strategaeth wedi bod yn effeithiol. Roedd wedi bod yn effeithiol am fod rheolwyr yn gallu cyfathrebu'r buddion yn glir i'r gweithwyr yr oeddent yn eu goruchwylio, ac wedi cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau'r cam nesaf yn y broses gofrestru ar gyfer gweithwyr eraill yn eu lleoliadau. Mae Awstralia hefyd wedi mynd ati'n raddol, gan ddechrau gydag athrawon plentyndod cynnar, gyda'r nod o gynnwys addysgwyr plentyndod cynnar eraill a chanddynt gymwysterau galwedigaethol yn nes ymlaen. Fodd bynnag, rhybuddiai rhai o'r cyfranogwyr ynghylch peryglon gweithredu'n raddol, er enghraifft gallai adael rhai grwpiau y mae'r broses gofrestru yn fwy cymhleth iddynt.

4.48 Teimlwyd y byddai ymgyrch 'ar eich marciau' ac ymgysylltiad pellach â rhanddeiliaid ymlaen llaw, yn elfennau pwysig o ddull gweithredu graddol. Soniodd cyfranogwyr am bwysigrwydd cael cefnogaeth y gweithlu, ac felly bod arnynt angen teimlo y byddai'r gofrestrfa yn cyflwyno buddion pwysig, er enghraifft gwella'u statws proffesiynol, cynnig cyfleoedd i ddatblygu, a chefnogi dilyniant eu gyrfa. Teimlwyd y byddai ymgyrch 'ar eich marciau' sy'n ymgysylltu'n rheolaidd â'r gweithlu ac yn ei ddiweddaru am y broses a'r camau nesaf, yn elfen hanfodol wrth gyfathrebu'r buddion.

4.49 Mewn ymdrech i egluro diben y gofrestrfa, trafododd rhai o'r cyfranogwyr y posibilrwydd o ddefnyddio enw heblaw am 'gofrestrfa', oherwydd gallai'r gair hwn achosi dryswch yng ngolau'r gofyniad i leoliadau a gwarchodwyr plant gofrestru gyda'r Arolygiaeth. Gallai enwau eraill, er enghraifft 'aelodaeth broffesiynol' neu 'corff proffesiynol', fod yn arwydd gwell o natur unigol y gofrestrfa a'i diben o broffesiynoleiddio'r maes GPChBC.

4.50 Wedi ystyried y canfyddiadau uchod mewn perthynas â chymwysterau a datblygiad proffesiynol parhaus, teimlai rhanddeiliaid ei bod yn bwysig mireinio manylion y

gefnogaeth ar gyfer hyfforddiant a chymwysterau, cyn sefydlu'r gofrestrfa. Cyflwynodd rhanddeiliaid nifer o awgrymiadau ynghylch sut i drafod y gwahaniaethau mewn cymwysterau - er enghraifft, caniatáu cyfnod o ras er mwyn i bobl ennill y cymwysterau, yn ogystal â mynd ati mewn ffordd sy'n derbyn 'cymhwysedd wedi’i gadarnhau' er mwyn cynnwys gweithwyr sydd â digon o brofiad ond nad oes ganddynt gymwysterau ffurfiol sy'n cyfateb i'r gofynion. Awgrymwyd hefyd y dylid nodi cymwysterau gofynnol wrth gyflwyno'r gofrestrfa, ac y byddai hynny yn gofyn am adolygu'r lefelau cymhwyster presennol ar draws rolau gwahanol, yn gyntaf. Yn olaf, gwelai rhai o’r cyfranogwyr fod angen adolygu'r rolau niferus yn iawn ac yn fanwl, er mwyn penderfynu am y categorïau a'r mudiadau sy'n gyfrifol am gofrestriadau gwahanol. Efallai nad yw'r awgrymiadau hyn i gyd yn berthnasol i amgylchiadau'r sector blynyddoedd cynnar, ond maent yn arwydd clir fod yn rhaid gwneud rhai penderfyniadau pwysig am gymwysterau a datblygiad proffesiynol parhaus *cyn* cyflwyno unrhyw gofrestrfa.

## 5. Canfyddiadau'r Gweithdy Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

5.1 Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno canfyddiadau'r gweithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid. Cynhaliwyd y gweithdy'n rhithwir, ac roedd yn cynnwys rhanddeiliaid o Gymru, yn ogystal â chynrychiolwyr Llywodraeth yr Alban ac SSSC, er mwyn cael mewnwelediad i'w profiadau nhw o gofrestrfa ar gyfer y gweithlu. Yn dilyn cyflwyniad byr am ganfyddiadau'r ymchwil o'r ddesg a'r cyfweliadau, rhannwyd cyfranogwyr yn dri grŵp, gan sicrhau bod amrywiaeth o fudiadau yn cael eu cynrychioli ymhob grŵp. Y nod oedd trafod materion allweddol a nodwyd yn y cyfweliadau fel rhai yr oedd angen eu trafod ymhellach, er mwyn dwyn y persbectifau gwahanol ynghyd i feithrin consensws. Rhoddwyd un o'r testunau canlynol i bob grŵp, a rhoddwyd promptiau a phwyntiau trafod iddynt mewn perthynas â hyn. Dyma oedd y tri thestun:

- diffinio'r gweithlu GPChBC a phwy ddylid eu cynnwys mewn cofrestrfa ar gyfer y gweithlu
- elfennau ymarferol cofrestrfa, er enghraifft: a ddylai fod yn rhad ac am ddim, neu a ddylai fod ffi, sut i fynd ati i gofrestru gweithwyr a chanddynt rolau deuol a chysyniadu'r gweithlu o fewn y ddadl 'gofal yn erbyn addysg'
- rôl cymwysterau, datblygiad proffesiynol parhaus ac elfennau cysylltiedig eraill mewn cofrestrfa

5.2 Yn adran olaf y gweithdy, daeth pob grŵp yn ôl at ei gilydd a rhoi crynodeb o'r meysydd lle'r oedd cytundeb, yr heriau yr oedd angen eu datrys o hyd a'r syniadau ar gyfer y camau nesaf mewn perthynas â'r testunau a roddwyd iddynt. Yna, roedd cyfle i bob un o'r grwpiau ymateb ac adrodd i mewn i gasgliadau ei gilydd. Yn yr adran hon, rhown grynodeb o'r prif fewnwelediadau o'r gweithgaredd hwn mewn perthynas â'r tri thestun a drafodwyd.

### Testun un: pennu pwy ddylai gael eu cynnwys yn y gofrestrfa

5.3 Yn unol â'r hyn a ddaeth i'r amlwg yn ystod y cyfweliadau, roedd rhanddeiliaid yn lled-gytuno y dylid cynnwys y gweithlu GPChBC yn y gofrestrfa, gan gynnwys, er enghraifft, gwarchodwyr plant. Gwelwyd bod y penderfyniad ynghylch pwy i'w cynnwys yn y gofrestrfa wedi'i glymu at ddiben y gofrestrfa. Er enghraifft, lle bo prif swyddogaeth y gofrestrfa yn ymwneud â gwella diogelu, yna mae gofyn cynnwys pob un, hyd yn oed gwirfoddolwyr (er y gallai fod gwahaniaethau yn y *ffordd* y gallai

rhai grwpiau gael eu cynnwys, er enghraifft peidio â chodi ffi ar wirfoddolwyr). Amlygodd y drafodaeth hon yr angen i egluro diben y gofrestrfa gan nad oedd yr holl randdeiliaid yn cytuno.

5.4 Tynnodd cyfranogwyr sylw at nifer o faterion oedd eto i'w datrys ac yr oedd angen meddwl drostynt yn fanylach nag yr oedd amser yn ei ganiatáu yn y gweithdy. Roedd y rhain yn cynnwys yr hyn ddylid ei wneud yn achos grwpiau y byddai’n fwy cymhleth eu cofrestru, er enghraifft gweithwyr tymhorol, arweinwyr cylchoedd ti a fi, a staff a gyflogir mewn lleoliadau nad oes angen iddynt gofrestru am eu bod yn gweithredu am lai na dwy awr, er enghraifft clybiau brecwast.

5.5 Rhannodd cyfranogwyr rai syniadau cychwynnol i roi sylw i'r categorïau cofrestru mwy cymhleth hyn, gan gynnwys cyfnod o ras i weithwyr tymhorol. Awgrym arall oedd mynd ati'n raddol, fel y gwnaed ym maes gofal cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar un rôl ar y tro, er enghraifft rheolwyr i'w cofrestru yn gyntaf, cyn symud ymlaen i gofrestru gweithwyr llinell flaen. Awgrym arall oedd dechrau'r broses gofrestru gyda gweithwyr mewn lleoliadau sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, cyn symud ymlaen at grwpiau eraill.

**Yr ail destun: elfennau ymarferol cofrestrfa**

5.6 Er nad oedd cytundeb llwyr ynghylch hyn, roedd yna gonsensws lled-dda y dylai'r gofrestrfa fod yn fandadol er mwyn iddi fod yn ystyrlon ac yn werth chweil. Yn yr un modd â'r cwestiwn ynghylch pwy ddylai gael eu cynnwys, roedd cyfranogwyr y gweithdy'n dadlau y dylai natur fandadol y gofrestrfa fod yn gysylltiedig â phrif ddiben y gofrestrfa – lle bo diogelu yn un o swyddogaethau'r gofrestrfa, yna mae hynny'n gofyn am iddi fod yn fandadol yn hytrach nag yn ddewisol. Teimlai cyfranogwyr y gweithdy fod proffesiynoleiddio hefyd yn swyddogaeth bwysig i'r gofrestrfa, ac amlygwyd yr angen i ofalu peidio â chymylu'r llinellau rhwng cofrestriad proffesiynol a diogelu. Yn yr un modd â’r cyfweliadau, roedd cyfranogwyr y gweithdy hefyd yn cydnabod y byddai'r gofrestrfa, ar ei phen ei hun, yn mynd rhywfaint o'r ffordd yn unig tuag at y nod hwn o broffesiynoleiddio, a bod angen gwella cyflogau ac amodau gwaith hefyd.

5.7 O ran y drafodaeth ynghylch codi ffi, roedd gan gyfranogwyr rai pryderon y byddai codi ffi am gofrestru yn faich ychwanegol ac yn rhwystr i'r gallu i recriwtio, yn enwedig i weithlu sydd ar gyflog isel. Teimlir ei bod yn hanfodol nad yw'r ffi yn cael ei gweld fel gorfod talu i weithio, a’i bod hefyd yn hanfodol amlygu potensial y

gofrestrfa i fod yn arwydd o natur broffesiynol eu gwaith yn ogystal â'r buddion y gallant eu disgwyl yn gyfnewid.

5.8 Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod y gallai fod rhai buddion wrth godi ffioedd cofrestru, gan gynnwys mwy o berchnogaeth dros y gofrestrfa ymhlith gweithwyr, y syniad y byddent yn fwy tebygol o geisio buddion y gofrestrfa a'r posibilrwydd y gallai'r gofrestrfa fod yn fecanwaith i sicrhau cyswllt gwell gyda gweithwyr. Roedd yna gytundeb clir y dylai unrhyw ffi gofrestru fod yn ddigon isel i sicrhau bod modd ei thalu, os oedd ffi yn cael ei chodi. Unwaith eto, pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd cyfathrebu buddion y gofrestrfa'n glir er mwyn cyfiawnhau unrhyw ffi a godir, yn ogystal â phwysigrwydd cyfathrebu gwybodaeth am y broses gofrestru yn gyffredinol. Fel yn y cyfweliadau, cyflwynwyd staff cymorth mewn ysgolion fel enghraifft i'm hatgoffa bod gofyn i'r cysylltiad rhwng datblygiad proffesiynol parhaus ac anghenion y gofrestrfa fod yn gryf er mwyn gwireddu'r buddion.

5.9 Yn olaf, ar gyfer y gweithwyr hynny a fyddai â chofrestriad deuol, awgrymwyd y dylai'r rheiny sy'n cofrestru dalu un ffi yn unig, ac y dylai fod cydweithio a chydnabyddiaeth gilyddol ar draws cofrestrfeydd gwahano. Dywedwyd bod hyn yn bosibl trwy sianeli cyfathrebu clir. Dylai fod yn bosib adnabod rolau lluosog o fewn un gofrestrfa, fel bod y wybodaeth a gesglir yn cael ei threfnu ar lefel yr unigolyn, er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith.

5.10 Yn unol â'r hyn a drafodwyd yn y cyfweliadau, pwysleisiodd rhanddeiliaid bwysigrwydd ystyried yn ofalus ble y dylai'r gofrestrfa eistedd a phwy ddylai fod â chyfrifoldeb drosti. Yr allwedd i ateb y cwestiynau hyn yw sut y mae rolau gweithwyr yn cael eu cysyniadu: disgrifiodd rhanddeiliaid sut y mae rhai gweithwyr yn ffitio yn y sector addysg, ac eraill yn y sector gofal, ond hefyd sut y mae'r categorïau yn llai amlwg ar gyfer rhai o'r rolau. Er enghraifft, dywedir wrth weithwyr chwarae nad ydynt yn darparu addysg, gan nad yw eu ffocws ar ddeilliannau addysgol, ond nid ydynt yn disgyn o fewn y categori gofal ychwaith. Awgrymodd cyfranogwyr y dylid ystyried pob rôl, o ran lle y byddai'n ffitio orau.

**Y trydydd testun: rôl cymwysterau a datblygiad proffesiynol parhaus**

5.11 Un o'r meysydd lle'r oedd cytundeb ymhlith rhanddeiliaid, oedd na ddylai cymwysterau rwystro pobl rhag cofrestru. Mewn geiriau eraill, ni ddylid atal gweithwyr rhag ymuno â'r gofrestrfa am nad oes ganddynt y cymwysterau gofynnol adeg cyflwyno'r gofrestrfa, neu wrth iddynt ddod i mewn i'r sector. Cyfeiriodd

cyfranogwyr y gweithdy at yr enghraifft o'r ffordd y mae'r gofrestrfa'n gweithio yn yr Alban, lle mae gan weithwyr gyfnod o bum mlynedd i weithio tuag at y cymwysterau gofynnol. Fodd bynnag, awgrymodd cyfranogwyr fod angen meddwl sut y mae'r cyhoedd yn gweld y cofrestriad, ac y byddai'r cyhoedd yn gweld pobl gofrestredig fel rhai sydd â chymwysterau.

5.12 Roedd cyfranogwyr yn cydnabod yr angen i ystyried materion recriwtio a chadw parhaus, yn ogystal â rhannau o'r gweithlu a fyddai efallai heb gymwysterau er eu bod, o bosibl, wedi cael hyfforddiant (er enghraifft gweithwyr chwarae tymhorol). Er mwyn rhoi sylw i hyn, roedd cyfranogwyr yn cefnogi llwybrau eraill at gofrestriad, fel nad yw pobl yn cael eu hatal rhag cofrestru os nad oes ganddynt gymhwyster ffurfiol, er enghraifft 'cymhwysedd wedi'i gadarnhau', er mwyn sicrhau bod gweithwyr profiadol yn cael eu cynnwys. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod yna lwybr i bobl sydd eisiau dod i mewn i'r sector, ond nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau perthnasol, fel y trafodwyd uchod mewn perthynas â chyfnod o ras er mwyn ennill cymwysterau.

5.13 Roedd yna rai cwestiynau heb eu hateb o hyd, mewn perthynas â chymwysterau. Roedd y rhain yn cynnwys cofrestru pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau nad ydynt yn gorfod cofrestru eu darpariaeth gyda'r Arolygiaeth gan eu bod ar waith am lai na dwy awr y dydd. Gan nad yw'r lleoliadau hyn yn gofyn i'w cyflogeion feddu ar gymwysterau penodol, y cwestiwn oedd sut i osod gofyniad am gymwysterau er mwyn i'r gweithwyr hyn fod yn rhan o gofrestrfa'r gweithlu.

5.14 Unwaith eto, roedd gofyn meddwl am rolau deuol - ac roedd cyfranogwyr yn cydnabod yr angen i sicrhau cydnabyddiaeth gilyddol ar gyfer cymwysterau pan fo gweithiwr wedi'i gofrestru gyda mwy nag un corff.

5.15 Cytunai rhanddeiliaid mai un o fuddion posibl y gofrestrfa fyddai gwerthfawrogi datblygiad proffesiynol parhaus a nodwyd pwysigrwydd adeiladu cymuned arfer yn rhan o'r cofrestriad. Er mwyn gwneud hyn, mae'n bwysig parhau i fonitro datblygiad proffesiynol parhaus, gan gynnwys datblygiad proffesiynol parhaus sy'n digwydd y tu allan i gyrsiau ffurfiol, er enghraifft darllen ac ysgrifennu myfyrdodau ar waith. Roedd cyfranogwyr hefyd yn cydnabod pwysigrwydd goruchwyliaeth ac arfarniad yn rhan o hyn, a sut y gallai cofrestrfa hwyluso datblygiad proffesiynol parhaus ar draws lleoliadau. Mae'n debygol y bydd y swyddogaeth hon hefyd yn torri ar draws materion yn ymwneud â gweithwyr nad oes ganddynt gymwysterau. Gallai fod yn

ddefnyddiol cael ffordd o fonitro holl amrywiaeth y datblygiad proffesiynol parhaus y gallai pobl ymgymryd ag ef. Teimlai cyfranogwyr y gallai hyn fod yn ganlyniad cadarnhaol iawn i'r gofrestrfa.

5.16 Law yn llaw â thynnu sylw at bwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus trwy'r gofrestrfa, mae angen gwella nawdd a mynediad hefyd, yn ôl y rhanddeiliaid fu'n cymryd rhan. Er enghraifft, yn aml mae gan warchodwyr plant fynediad cyfyngedig at ddatblygiad proffesiynol parhaus ac mae angen meddwl y tu hwnt i sesiynau min nos i ateb y mater hwn. Mae angen sicrhau hefyd fod datblygiad proffesiynol parhaus yn wirioneddol barhaus ar draws y cyfnod sydd ar gael, yn hytrach na'i fod yn dod yn ffocws ar ddiwedd y cyfnod cofrestru er mwyn bodloni'r gofynion.

**Mewnwelediadau allweddol o'r gweithdy ymgysylltu**

5.17 Amlygodd canfyddiadau'r gweithdy ymgysylltu y pwyntiau allweddol canlynol:

- Ar y cyfan, ymhlith rhanddeiliaid, roedd yna gytundeb, mewn egwyddor, i sefydlu gofrestrfa ar gyfer y gweithlu, oherwydd y proffesiynoleiddio a allai ddigwydd yn ei sgil.
- Mae'n bwysig egluro diben y gofrestrfa, a dylai hyn arwain penderfyniadau am rai o'r materion a drafodwyd.
- Mae angen osgoi canlyniadau anfwriadol, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â baich rheoleiddiol, ffioedd ac effeithiau posibl ar recriwtio ac ar y gwasanaethau a gynigir i blant a theuluoedd.
- Mae'n bwysig cyfathrebu'n glir fuddion posibl y gofrestrfa i'r gweithlu, ac mae hyn yn ymwneud ag egluro diben a swyddogaeth(au)'r gofrestrfa.

5.18 Mae'n bwysig nodi nad oedd un o'r materion hyn a godwyd gan randdeiliaid yn cael ei weld fel mater nad oedd modd ei oresgyn. Yn hytrach, mae’r materion hyn yn gofyn am ystyried yn ofalus y camau niferus i'w cymryd cyn sefydlu cofrestrfa ac yn ystod camau cychwynnol ei gweithrediad. Byddwn yn cyflwyno'r camau gweithredu hyn yn yr adrannau nesaf.

## 6. Casgliadau

6.1 Nod yr astudiaeth oedd cynnal adolygiad annibynnol i oleuo camau gweithredu Llywodraeth Cymru a chamau nesaf ar gyfer cofrestru'r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar (GPChBC) yn broffesiynol.

6.2 Yn ystod yr ymchwil o'r ddesg ar ddechrau'r prosiect, cawsom gefndir defnyddiol ar gyfer y cyfweliadau a'r gweithdy gyda rhanddeiliaid allweddol, gan iddo amlygu rhai o'r elfennau hysbys ac anhysbys amlwg. Er enghraifft, roedd yn ddigon hwylus cael gafael ar y data diweddaraf am nifer y gweithwyr mewn canolfannau gofal dydd i blant, nifer y gwarchodwyr plant, a nifer yr athrawon meithrin a'r gweithwyr cymorth yn y meithrin, gan fod y data hwn ar gael mewn setiau data gweinyddol, yn nata swyddogol y llywodraeth neu yng nghofrestrfeydd sydd eisoes yn bodoli ar gyfer y gweithlu. Ar y llaw arall, mae'r data hyn yn gyfyngedig oherwydd eu bod yn cael eu hunan-riportio, ac yn sgil hynny nid yw'r amcangyfrifon yn gwbl gywir. Yn ogystal, roedd yn llawer anoddach, neu'n amhosibl, cael darlun llawn o grwpiau eraill o bobl sy'n gweithio gyda phlant dan 12 oed, yn unol â'r diffiniad ar gyfer GPChBC a geir yn y strategaeth 10-mlynedd. Mae nifer y gweithwyr chwarae, gweithwyr tymhorol, pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau heb eu cofrestru neu'n gweithio mewn rolau lluosog, nanis ac *au pairs*, a hyd yn oed gwirfoddolwyr, yn ansicr o hyd gan nad oes setiau data swyddogol sy’n tracio'u niferoedd a'u symudiadau ar draws lleoliadau.

6.3 Mae'r rhan hon o'r gweithlu GPChBC yn arwyddocaol: o ran ei maint, gyda rhai amcangyfrifon yn awgrymu ei bod yn cynnwys tua 5,500 o weithwyr chwarae, ac o ran ei rôl yn darparu gwasanaethau pwysig ar gyfer plant a'u teuluoedd. Mae'r elfennau anhysbys hyn yn amlygu un budd potensial wrth sefydlu cofrestrfa ar gyfer y gweithlu, sef darparu data mwy cyflawn am y gweithlu GPChBC. Fodd bynnag, ni ddylai cofrestrfa fodoli er mwyn cyfrif niferoedd gweithwyr yn unig.

6.4 Yn wir, nid dim ond niferoedd y gweithwyr sy'n anhysbys; nid ydym yn gwybod beth yw eu cymwysterau, eu hamodau gwaith na'u llwybrau gyrfa, ac mae yna oblygiadau ymarferol ac oblygiadau polisi o ran y ffordd orau o gefnogi'r gweithwyr hyn. Mae'n bwysig gosod y ffactorau hyn yng nghyd-destun ehangach argyfwng recriwtio a chadw yn y sector GPChBC, a oedd eisoes yn bodoli cyn pandemig Covid-19 ond sydd wedi gwaethygu yn sgil y pandemig. Mae Covid-19 wedi amlygu ymhlith rhieni/gofalwyr a'r cyhoedd yn ehangach, bwysigrwydd rôl y sector blynyddoedd cynnar ac, yn sgil hynny, mae wedi creu tir ffrwythlon i gynyddu statws

y gweithlu. Fodd bynnag, mae hefyd yn codi'r cwestiwn ychwanegol ynghylch sut i fwrw ymlaen i sefydlu cofrestrfa heb greu beichiau ychwanegol.

6.5 Trwy ymchwil o'r ddesg a chyfweliadau, ceisiom hefyd fesur y gost o sefydlu a rheoli cofrestrfa. Fodd bynnag, ni fu'n bosibl cymhathu'r wybodaeth er mwyn llunio amcangyfrif. Mae yna ddau brif reswm dros hyn. Yn gyntaf, mewn nifer o achosion, er enghraifft mewn taleithiau amrywiol yn yr Unol Daleithiau, sefydlwyd cofrestrfeydd yn rhan o ymdrech ehangach i wella ansawdd, a oedd yn gysylltiedig â nawdd ar lefel ffederal a thalaith ar gyfer ystod o weithgareddau. Sefydlwyd cofrestrfeydd fel offeryn i dracio'r ymdrechion hyn ond nid oedd pris ynghlwm. Fodd bynnag, yn achos yr Alban, amlygwyd y ffaith fod y gofrestrfa yn gofyn am nawdd parhaus gan y llywodraeth. Mewn gwirionedd, hyd yn oed wedi iddi fod ar waith am 20 mlynedd, nid yw'r ffioedd ar eu pennau eu hunain yn dod yn agos at dalu'r holl gostau gweithredu. Yn ail, bydd cost y gofrestrfa yn dibynnu'n helaeth ar ba un o'r argymhellion, a gyflwynir isod, y bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu gweithredu arno.

6.6 Dangosodd y gwaith a wnaed trwy'r prosiect hwn fod yna gytundeb cyffredinol ynghylch cyfraniad cadarnhaol cofrestrfa at gynyddu proffesiynoldeb a statws y gweithlu GPChBC. Cyflwynwyd nifer o faterion fel rhai y byddai'n bwysig gweithredu arnynt cyn sefydlu cofrestrfa, er mwyn gwireddu ei buddion. Fodd bynnag, ni welai rhanddeiliaid y rhain fel materion nad oedd modd eu goresgyn.

6.7 Roedd yn glir hefyd fod angen cyfathrebu diben y gofrestrfa yn glir, ac y dylai hynny fod yn ymdrech barhaus, gan mai'r diben hwn, yn y pendraw, fyddai’r canllaw i ateb rhai o'r materion sydd heb eu datrys. Roedd yn glir y credai llawer o randdeiliaid y gallai’r gofrestrfa fod yn offeryn pwerus i gynyddu proffesiynoldeb y gweithlu GPChBC, ond dim ond os yw’n cael ei wneud yn iawn. Nid yw hyn yn awgrymu cael popeth yn iawn o'r dechrau'n deg, ond yn hytrach mynd ati i adolygu ac ymgynghori â'r sector yn barhaus.

# 7. Argymhellion

7.1 Yn unol â'r canfyddiadau a drafodwyd yn yr adrannau blaenorol, cyflwynwn ein hargymhellion i Lywodraeth Cymru, isod.

7.2 Dangosodd y cyfweliadau a'r gweithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid, fod cytundeb cyffredinol, mewn egwyddor, i sefydlu cofrestrfa ar gyfer y gweithlu GPChBC a chynnwys y gweithlu GPChBC cyfan er mwyn gwarantu na fydd unrhyw grŵp yn cael ei adael ar ôl. Fodd bynng, amlygodd y canfyddiadau feysydd pwysig y mae angen eu hegluro, ac elfennau ymarferol cofrestrfa y mae angen eu datrys, er mwyn gwireddu buddion posibl y gofrestrfa. Yn Nhabl 7.1 a 7.2 rhown drosolwg o'r gwaith y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud cyn sefydlu'r gofrestrfa ac yn ystod y broses o sefydlu'r gofrestrfa. Mae'r argymhellion penodol i Lywodraeth Cymru yn deillio o'r tablau canlynol

**Tabl 7.1: Camau gweithredu i Lywodraeth Cymru cyn y cam sefydlu**

| Mater | Pam y mae'n bwysig | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| Diffyg cytundeb ynghylch sut i gysyniadu'r gweithlu GPChBC (y ddadl 'gofal yn erbyn addysg') | Wrth gysyniadu'r gweithlu mae yna oblygiadau ar gyfer y rheiny a ddylai gofrestru a phwy sydd â'r cyfrifoldeb dros bennu'r gofynion o ran cymwysterau, hyfforddiant, cod ymddygiad, ayb. | Dylid gwneud mwy o waith i benderfynu pwy allai fod yn gyfrifol am gofrestru'r gweithlu, gan gynnwys ymgynghoriad. |
| Diffyg cytundeb ynghylch sut i fwrw ymlaen i gofrestru grwpiau penodol, er enghraifft:<br><br>• Gweithwyr chwarae<br>• Gwarchodwyr plant<br>• Pobl sy'n gweithio mewn lleoliadau heb eu cofrestru<br>• Pobl sydd â rolau deuol<br>• Gwirfoddolwyr | Mae angen penderfyniad ymwybodol i benderfynu pwy ddylid eu cynnwys yn y gofrestrfa ac a ddylent gael eu cynnwys o’r cychwyn, er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol, er enghraifft:<br>• Baich rheoleiddiol, a allai gael effaith negyddol ar ddarpariaeth gwasanaethau<br>• Effaith negyddol ar y gallu i recriwtio a chadw | Egluro diben pennaf y gofrestrfa a phwy ddylai fod yn rhan ohoni, gan ystyried yr opsiwn o fynd ati'n raddol, lle byddai'r cofrestru'n dechrau gydag un grŵp o weithwyr<br><br>Penderfynu pa wybodaeth ddylai gael ei chasglu yn rhan o'r broses gofrestru, gan ystyried yr opsiynau canlynol:<br>a) cymwysterau |

| | | |
|---|---|---|
| | | b) gweithgarwch/oriau datblygiad proffesiynol parhaus<br>c) hanes cyflogaeth/profiad gwaith<br><br>Ymgynghori â'r sector ar yr opsiynau hyn |
| Mae angen sicrhau bod buddion cofrestru yn glir. | Rhaid sicrhau bod yna fuddion clir er mwyn cael cefnogaeth y gweithlu. | Unwaith y bydd penderfyniad wedi cael ei wneud am y corff cofrestru, trefnu ymgyrch 'ar eich marciau' sy'n mynegi'r buddion i gyflogwyr, ymarferwyr a'r sector yn ei gyfanrwydd.<br><br>Meddwl am enw gwahanol er mwyn osgoi dryswch gyda chofrestriad mandadol yr Arolygiaeth Gofal, yn enwedig yn achos gwarchodwyr plant, ac er mwyn amlygu'r nod o wella proffesiynoldeb a statws. |
| Mae angen diffinio'r cysylltiad rhwng cofrestriad a chymwysterau yn dda. | Er mwyn osgoi camgymeriadau a brofwyd mewn cofrestrfeydd eraill am fod gofynion mynediad a chymwysterau heb gael eu hystyried ymlaen llaw. | Gosod gofynion clir o ran cymwysterau mynediad a<br>• Rhoi cyfnod o ras i weithwyr er mwyn iddynt ennill cymwysterau<br>• Dull gweithredu sy'n seiliedig ar 'gymhwysedd wedi'i gadarnhau' ar gyfer gweithwyr profiadol nad oes ganddynt gymwysterau ffurfiol<br>• Datrys y mater ynghylch cydnabod cymwysterau a enillwyd mewn gwledydd eraill |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cynnal cysylltiadau gyda gwaith pellach yn ymwneud â chymwysterau a llwybr dilyniant gyrfa a gyflwynir yn y cynllun 10-mlynedd ar gyfer y gweithlu |
| Mae angen bodloni unrhyw ofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus trwy sicrhau cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus sydd ar gael, yn fforddiadwy ac o ansawdd uchel | Sicrhau bod y gofrestrfa yn arwain at broffesiynoleiddio’r gweithlu | Wrth i'r Gofrestr ymsefydlu, gweithio gyda chyrff yn y sector i ddeall cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus sydd eisoes yn bodoli ar gyfer y sector o ran:<br>• Argaeledd<br>• Hygyrchedd<br>• Diffiniad ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus<br><br>Gweithio gyda chyrff yn y sector i ddeall yr hyn sy'n angenrheidiol ar lefel unigol, lleoliad a sector er mwyn sicrhau bod datblygiad proffesiynol parhaus o safon uchel ar gael ac yn hygyrch<br><br>Asesu i weld a oes angen nawdd ychwanegol er mwyn cael gwared ar y rhwystr ariannol sy’n atal unigolion rhag cael datblygiad proffesiynol parhaus ac i gynorthwyo lleoliadau i ryddhau staff er mwyn iddynt gael hyfforddiant |

**Tabl 7.2: Camau gweithredu i Lywodraeth Cymru yn ystod y cam sefydlu**

| Mater | Pam y mae'n bwysig | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| Diffyg cytundeb ynghylch telerau ariannol y gofrestrfa | Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng cadw cost cofrestru'n isel i osgoi effaith negyddol ar recriwtio a chadw, a dangos bod gweithwyr yn cael rhywbeth yn ôl | Ystyried yr hyn fyddai orau o ran ffioedd cofrestru ac amseru, o ran:<br>• cofrestru'n rhad ac am ddim neu godi ffi gofrestru;<br>• ffioedd yn ddibynnol ar y rôl;<br>• cofrestru'n flynyddol, yn achlysurol neu'n barhaus |
| Rhaid sicrhau bod y cysylltiad rhwng y gofrestrfa a'r gofynion o ran datblygiad proffesiynol parhaus yn gadarn | Byddai cysylltiad cryf rhwng y gofrestrfa a datblygiad proffesiynol parhaus yn gymorth i'r gweithlu uwchsgilio a datblygu mwy o broffesiynoldeb | Gwneud y gofrestrfa yn siop-un-stop lle gall unigolion gofnodi eu datblygiad proffesiynol parhaus a chadw llygad arno<br><br>Darpariaeth sy'n gallu cysylltu at fathau eraill o ofynion a hyfforddiant, er enghraifft tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, cymorth cyntaf a hyfforddiant diogelu |

**Argymhellion**

*Cyn y cam sefydlu*

7.3 Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu gweithgor sydd â'r dasg o wneud y canlynol:

- Gweithio gyda'r sector i ddatblygu opsiynau cadarn o ran pwy ddylai fod yn gyfrifol am sefydlu'r gofrestrfa a'i chynnal, gan ystyried a ddylai fod yng nghylch gwaith Gofal Cymdeithasol Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg neu gorff gwahanol
- Gweithio gyda'r sector i ddatblygu opsiynau cadarn o ran pa grŵp/grwpiau o'r gweithlu ddylai gofrestru a sut, gan ystyried yr opsiwn o fynd ati'n raddol, lle mae cofrestru'n dechrau gydag un grŵp o weithwyr. Gallai dull gweithredu graddol o'r fath gynnwys argymhellion ar gyfer y manylion canlynol:
    - Gallai'r broses gofrestru fynd rhagddi fesul grŵp o weithwyr, gan ddechrau gyda grŵp y cytunir yn llwyr y dylid ei gynnwys, er enghraifft gweithwyr gofal plant mewn lleoliadau cofrestredig
    - Gallai'r broses gofrestru ddechrau gyda gweithwyr mewn rolau rheoli cyn symud ymlaen at weithwyr llinell flaen
    - Dylid llunio a chyhoeddi llinell amser glir er mwyn i grwpiau eraill ymuno unwaith y bydd y cam sefydlu cychwynnol wedi'i gwblhau ac unwaith y cymerwyd camau gweithredu clir i fynd i'r afael â materion sy'n benodol i bob grŵp
- Argymell pa elfennau o'r gweithlu ddylai gofrestru, gan ystyried yr opsiynau canlynol: cymwysterau, gweithgarwch/oriau datblygiad proffesiynol parhaus, hanes cyflogaeth/profiad, neu bob un o'r rhain.

7.4 Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori’n ffurfiol â'r sector, a'r cyhoedd yn fwy cyffredinol, ynghylch elfennau'r gofrestrfa a ystyriwyd gan y gweithgor.

7.5 Unwaith y mae'r ymgynghoriad yn gyflawn, dylai Llywodraeth Cymru:

- ystyried adborth a lle y bo'n briodol, mireinio'r cynigion
- parhau â gweithgareddau i ymgysylltu â'r sector er mwyn sicrhau bod diben y gofrestrfa'n cael ei gyfathrebu'n glir. Gallai gweithgareddau o'r fath gynnwys cylchlythyron, ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol, gweithdai a seminarau rhanbarthol

- ystyried yr enw iawn ar gyfer y gofrestrfa er mwyn sicrhau bod yr iaith yn adlewyrchu'r gwir swyddogaeth
- trefnu ymgyrch 'ar eich marciau', h.y. ymgyrch wybodaeth sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth y gweithlu GPChBC o fanylion a llinell amser y broses gofrestru

7.6 Dylai Llywodraeth Cymru benderfynu am faterion sy'n ymwneud â ffioedd cofrestru ac amseru, gan benderfynu a ddylai fod yn rhad ac am ddim i gofrestru neu a ddylid codi ffi, ac, os penderfynir codi ffi, a ddylai'r ffi ddibynnu ar y rôl ac a ddylid cofrestru'n flynyddol, yn achlysurol neu'n barhaus.

7.7 Dylai Llywodraeth Cymru lunio cynlluniau clir ar gyfer cysylltu cymwysterau a Datblygiad Proffesiynol Parhaus at y gofrestrfa. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru:

- sicrhau nad yw cymwysterau'n rhwystro pobl rhag mynd i mewn i'r sector
- gweithio gyda chyrff y sector er mwyn deall datblygiad proffesiynol parhaus o ran yr hyn a gynigir ar hyn o bryd yn ogystal â'r hyn sy'n cyfrif fel datblygiad proffesiynol parhaus o ansawdd da;
- Asesu i weld a oes angen nawdd ychwanegol er mwyn cael gwared ar y rhwystr ariannol sy'n atal unigolion rhag cael datblygiad proffesiynol parhaus ac i gynorthwyo lleoliadau i ryddhau staff er mwyn iddynt gael hyfforddiant.

*Yn ystod y cam lansio a blwyddyn gyntaf gweithrediad y gofrestrfa*

7.8 Dylai Llywodraeth Cymru barhau i ymgynghori â'r sector, er enghraifft trwy arolygon neu grwpiau ffocws gyda'r grŵp cyntaf sydd wedi cofrestru, er mwyn gwerthuso swyddogaeth y gofrestrfa a deall a oes angen newid unrhyw beth ai peidio cyn ychwanegu rhannau eraill o'r gweithlu.

7.9 Dylai Llywodraeth Cymru drefnu proses ymgynghori cyn ychwanegu'r grwpiau eraill.

**Adran cyfeirnod**

Ackerman, D. (2016) 'Using State Early Care and Education Workforce Registry Data to Inform Training-Related Questions: Issues to Consider', *Policy Information Report* Princeton: Policy Information Center

Australian Children's Education and Care Quality Authority (ACECQA) (2021) 'Shaping Our Future: A ten-year strategy to ensure a sustainable, high-quality children's education and care workforce 2022–2031', National Children's Education and Care Workforce Strategy.

Braun, V., a Clarke, V. (2021) 'One size fits all? What counts as quality practice in (reflexive) thematic analysis?'. *Qualitative Research in Psychology*, *18*(3), tudalennau. 328-352.

Care Inspectorate Scotland (n.d.) 'Workforce registration with SSSC' darllenwyd 24 Chwefror 2022

Arolygiaeth Gofal Cymru (2020) 'Canllawiau Cofrestru Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010'

Arolygiaeth Gofal Cymru (2021) 'Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd 2020—21'

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (2020) Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Ms Jane O'Toole, Prif Swyddog Gweithredol, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (COV0023).

Cyngor y Gweithlu Addysg (2020) 'Annual Education Workforce Statistics for Wales' darllenwyd 24 Mai 2022

Healthcare News Scotland (2019) 'Briefing: Registering Scotland's care workforce' Healthcare News Scotland Ltd, darllenwyd 24 Chwefror 2022

Hevey, D. (2017) 'United Kingdom – ECEC Workforce Profile.' In 'Workforce Profiles in Systems of Early Childhood Education and Care in Europe', Oberhuemer, P.a Schreyer, I. (gol.) Gwefan adroddiadau gwlad Seepro darllenwyd 24 Mai 2022

Matheson, I. (2015) 'Milestones and Minefields: The General Teaching Council for Scotland: the first fifty years', The General Teaching Council Scotland GTCS 50th Anniversary book 2015_darllenwyd 24 Mai 2022

McLean, C., Austin, L.J.E., Whitebook, M., ac Olson, K.L. (2021) 'Early Childhood Workforce Index – 2020'. Berkeley, CA: Center for the Study of Child Care Employment, University of California, Berkeley. Cymerwyd oddi ar

National Workforce Registry Alliance, (n.d. a) 'The Evolution of the Child Care Workforce Registry' darllenwyd 24 Mai 2022

National Workforce Registry Alliance (dim dyddiad, b) 'What is an Early Childhood/School Age Workforce Registry?' darllenwyd 24 Mai 2022

Oberhuemer, P.a Schreyer, I. (gol.) Gwefan adroddiadau gwlad Seepro darllenwyd 24 Mai 2022

OECD (2019) 'Good practice for good jobs in early childhood education and care'. Paris: OECD Publishing.

OECD (2020) 'Building a High-Quality Early Childhood Education and Care Workforce: Further Results from the Starting Strong Survey 2018', TALIS, OECD Publishing, Paris,

Pascal, C., Bertram, T., a Cole-Albäck, A. (2020) 'Early Years Workforce Review: Revisiting the Nutbrown Review - Policy and Impact', The Sutton Trust

Play Wales (2020) 'Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru: Cynllun datblygu'r gweithlu Chwarae Cymru 2020'

Scottish Executive (2006) 'National review of the Early Years and Childcare Workforce Report and Consultation', Edinburgh: Gweithrediaeth yr Alban

Llywodraeth yr Alban (2009) 'Executive Note The Regulation Of Care (Fitness Of Employees In Relation To Care Services) (Scotland) Regulations 2009 (SSI 2009/91)' darllenwyd 24 Chwefror 2022

Scottish Social Services Council (dim dyddiad, a) tudalen 'Who can register?' ar y wefan darllenwyd 24 Chwefror 2022

Scottish Social Services Council (dim dyddiad, b) 'A register for the Future Consultation' darllenwyd 24 Chwefror 2022

Siraj, I. a Kingston, D. (2015) 'An Independent Review of the Scottish Early Learning and Childcare (ELC) Workforce and Out of School Care (OSC) Workforce', Llundain: UCL Institute of Education

Stedman, K. a Lewis, S. (2022) Arolwg Blynyddoedd Cynnar, Ymchwil Arad

Sylva, K., Melhuish, E., Sammons, P., Siraj-Blatchford, I., a Taggart, B. (Gol.) (2010) 'Early Childhood Matters: Evidence from the Effective Pre-school and Primary Education Project', Llundain: Routledge

The General Teaching Council for Scotland (dim dyddiad) Tudalen 'Professional Standards and Professional Learning' ar y wefan, darllenwyd 24 Chwefror 2022

Llywodraeth Cymru (2010) 'Adolygiad o'r Gallu ar  gyfer, a'r Modd y Cyflenwir Hyfforddiant Chwarae yng Nghymru'

Llywodraeth Cymru (2017) 'Gofal Plant, Chwarae  a Blynyddoedd Cynnar: Cynllun Gweithlu'

**Atodiad A: Canllaw i Destunau'r Cyfweliadau**

*Canllawiau i'r testunau i randdeiliaid yng Nghymru*

1. Cefndir a chyd-destun

Nod: Casglu gwybodaeth gefndir am y cyfranogwr

Nodwch:

- Eich rôl a'ch cyfrifoldebau
- Faint o amser yr ydych chi wedi bod yn gweithio yn y sector
- Faint o amser yr ydych chi wedi bod yn gweithio yn y sefydliad presennol yn y rôl hon

2. Barn am y sector a'r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar

Nod: Deall pwy maen nhw'n gweld 'yn rhan o'r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar'

- Yn eich llygaid chi, pwy sy'n rhan o'r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar (teitl swydd a/neu rôl; lleoliadau ble y maent yn gweithio)?
- Pwy yn y grwpiau hyn sydd eisoes wedi eu cofrestru?
- Rhowch fanylion sut y mae'r cofrestriad hwn yn gweithio

3. Beth yw cofrestrfa ar gyfer y gweithlu a safbwynt personol

Nod: Deall faint y maent yn ei wybod am 'gofrestrfeydd gweithlu' (yn gyffredinol ac yng Nghymru) a'u safbwynt nhw yn eu cylch (o blaid, yn erbyn, niwtral, heb wybod digon)

- A ydych chi'n gallu esbonio beth yw cofrestrfa ar gyfer y gweithlu?

[os ydy]

- Sut ydych chi'n ei gweld yn gweithio yng Nghymru? Pwy ddylai fod yn rhan ohoni?
- Sut y dylai weithio? Chwiliwch am wybodaeth am: gwirfoddol yn erbyn mandadol; rhad ac am ddim yn erbyn ffi; grwpiau penodol yn erbyn pob un sy'n gweithio gyda phlant; pobl sy'n gweithio mewn unrhyw leoliad ai peidio; ystod oedran y plant y maent yn gweithio gyda nhw; pwy ddylai fod yn gyfrifol amdani; a ddylai fod yn gysylltiedig â chymwysterau; swyddogaethau posibl: datblygiad proffesiynol parhaus, cod ymddygiad, ayb.
- Os nad ydych yn gweld y byddai'n gweithio'n dda yng Nghymru, pam?
- Os nad ydych yn gweld y byddai'n gweithio dda yng Nghymru neu os ydych yn erbyn sefydlu cofrestrfa, beth ddylid ei wneud yn lle yn eich barn chi?

[os na, bydd y sawl sy'n cyfweld yn rhoi esboniad cryno gan sicrhau bod yr esboniad yn syml ac yn rhydd o werth]

- Sut y byddech yn ei gweld yn gweithio yng Nghymru? Pwy ddylai fod yn rhan ohoni?
- Sut y dylai weithio? Chwiliwch am wybodaeth am: wirfoddol yn erbyn mandadol; rhad ac am ddim yn erbyn ffi; grwpiau penodol yn erbyn pob un sy'n gweithio gyda phlant; pobl sy'n gweithio mewn unrhyw leoliad ai peidio; oed y plant?
- Os nad ydych yn gweld y byddai'n gweithio'n dda yng Nghymru, pam? (Tanlinellu heriau posibl)
- Os nad ydych yn gweld y byddai'n gweithio’n dda yng Nghymru neu os ydych yn erbyn sefydlu cofrestrfa, beth ddylid ei wneud yn lle yn eich barn chi?

4. Gwybodaeth am Weinyddiaethau eraill

Nod: Deall eu gwybodaeth am brofiadau Gweinyddiaethau eraill yn cofrestru'r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar neu weithluoedd cysylltiedig

- Ydych chi'n gwybod am unrhyw enghreifftiau o gofrestrfa ar gyfer y gweithlu mewn Gweinyddiaethau eraill?

[os ydy]

- Sut ydych chi'n gweld system debyg yn gweithio yng Nghymru?
- Pa wersi allwn ni eu dysgu ganddynt a'u cymhwyso i gyd-destun Cymru?

[os na, symudwch ymlaen at y cwestiwn nesaf]

5. Adolygu'r hyn sydd wedi cael ei ddweud

- Gwahodd cyfranogwyr i gymryd ychydig funudau i adolygu'r hyn a drafodwyd
- Defnyddio'r cyfle i wirio unrhyw beth nad ydyw'n glir
- Holi am fwy o fanylion yr hoffent eu rhoi

6. Meddyliau terfynol

- Unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu?

*Canllaw i'r testunau ar gyfer rhanddeiliaid y tu allan i Gymru*

1. Cefndir a chyd-destun

Nod: Casglu gwybodaeth gefndir am y cyfranogwr

Nodwch:

- Eich rôl a'ch cyfrifoldebau
- Faint o amser yr ydych chi wedi bod yn gweithio yn y sector
- Faint o amser yr ydych chi wedi bod yn gweithio yn y sefydliad presennol yn y rôl hon

2. Barn am y sector a'r gweithlu gofal plant, chwarae a blynyddoedd cynnar

Nod: Cael mewnwelediad i brif nodweddion y system blynyddoedd cynnar yn eu gwlad

- Beth yw prif elfennau'r sector plentyndod cynnar yn eich gwlad?
- Pwy ydych chi'n eu gweld fel rhan o'r gweithlu plentyndod cynnar (teitl y swydd a/neu rôl; lleoliadau ble y maent yn gweithio; oed y plant a wasanaethir)

3. Disgrifiad o'r gofrestrfa ar gyfer y gweithlu yn eu gwlad

Nod: Deall sut y mae'r gofrestrfa ar gyfer y gweithlu yn gweithio yn eu gwlad nhw

- Pwy ymhlith y grwpiau hyn sydd eisoes wedi eu cofrestru?
- Manylion sut y mae'r cofrestriad yn gweithio. Chwiliwch am wybodaeth am: wirfoddol yn erbyn mandadol; rhad ac am ddim yn erbyn ffi; grwpiau penodol yn erbyn pob un sy'n gweithio gyda phlant; pobl sy'n gweithio mewn unrhyw leoliad ai peidio; ystod oedran y plant y maent yn gweithio gyda nhw; pwy sy'n gyfrifol amdani; a ddylai fod yn gysylltiedig â chymwysterau; swyddogaethau posibl: datblygiad proffesiynol parhaus, cod ymddygiad, ayb.
- Sut y daeth y gofrestrfa i fodolaeth (pwy a'i sefydlodd, faint gostiodd, sut y talwyd amdani)

4. Profiadau o'r gofrestrfa hyd yn hyn

Nod: Deall pa mor dda y mae'r gofrestrfa wedi gweithio hyd yn hyn ac a ydy’r gofrestrfa wedi bodloni'r dibenion y cafodd ei sefydlu ar eu cyfer

- Beth sydd wedi gweithio'n dda hyd yn hyn?
- Beth sydd ddim wedi gweithio'n dda?

- Wrth edrych yn ôl, yn eich barn chi a ddylid fod wedi gwneud pethau'n wahanol ac, os felly, sut?
- Gwersi allweddol a ddysgwyd
- Pa wersi y gallwn eu dysgu wrthych chi/eich profiad chi a'u cymhwyso i gyd-destun Cymru?

5. Adolygu'r hyn sydd wedi cael ei ddweud
   - Gwahodd y cyfranogwr i gymryd ychydig funudau i adolygu'r hyn a drafodwyd
   - Defnyddio'r cyfle i wirio unrhyw beth nad ydyw'n glir
   - Holi am fwy o fanylion yr hoffent eu rhoi

6. Meddyliau terfynol
   - Unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu?

**Atodiad B: Rhestr o'r Mudiadau a fu'n Cymryd Rhan yn y Cyfweliadau**

| **Mudiad** |
|---|
| Arolygiaeth Gofal Cymru |
| Australian Children’s Education and Care Quality Authority |
| Blynyddoedd Cynnar Cymru |
| Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs |
| Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru |
| Cyngor y Gweithlu Addysg |
| Chwarae Cymru |
| Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Llywodraeth yr Alban |
| Mudiad Meithrin |
| PACEY Cymru |
| SSSC (Scottish Social Service Council) |
| Timau Gofal Plant a Gwaith Chwarae Awdurdodau Lleol |
| Unison Cymru |

**Atodiad C: Gweithdy Ymgysylltu â Rhanddeiliaid: Y Mudiadau a fu'n Cymryd Rhan**

| **Mudiad** |
|---|
| ALI Abertawe |
| ALI Bro Morgannwg |
| ALI Caerffili |
| ALI Ceredigion |
| ALI Merthyr Tudful |
| ALI Pen-y-bont ar Ogwr |
| ALI Rhondda Cynon Taf |
| Arolygiaeth Ei Mawrhydi - Estyn |
| Arolygiaeth Gofal Cymru |
| Blynyddoedd Cynnar Cymru |
| Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs |
| Cyngor y Gweithlu Addysg |
| Chwarae Cymru |
| Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Llywodraeth yr Alban |
| Mudiad Meithrin |
| NDNA Cymru |
| PACEY |
| Scottish Social Services Council |
| Unison |

**Atodiad D: Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar mewn Gwledydd Llychlynnaidd**

1. Y gwledydd Llychlynnaidd yw'r rhannau mwyaf gogleddol yng ngorllewin Ewrop, ac maent yn ymestyn i'r Arctig. Maent yn cynnwys Denmarc, y Ffindir, Gwlad yr Ia, Norwy a Sweden, Ynysoedd Ffaro, Ynysoedd Åland ac, yn ôl mwyafrif y diffiniadau, Yr Ynys Las, gan fod cwlwm gwleidyddol ac ieithyddol hirsefydlog.

2. Mae'r gwledydd hyn yn rhannu treftadaeth gyffredin sy'n mynd yn ôl at Oes y Llychlynwyr, o leiaf, a gwelwyd nifer o uniadau yn y gorffennol a chydweithredu agos heddiw. O safbwynt cymdeithasol ac economaidd, maent hefyd yn rhannu hanes o bolisïau cymdeithasol blaengar a safonau byw uchel.

3. At ddiben yr astudiaeth hon, mae'n bwysig nodi bod gan wledydd Llychlynnaidd enw da am Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar o ansawdd uchel. Mae yna rai gwahaniaethau pwysig rhwng y gwledydd. Er enghraifft, mae gan y Ffindir system Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar unedol, wedi'i threfnu mewn dau gam ar gyfer plant hyd at saith oed. Mae gan Sweden system addysg unedig sy'n rhychwantu plant o 1 - 19 oed. Mae gan Ddenmarc system Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar unedol hefyd ar gyfer plant o 6 mis oed i 6 blwydd oed. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, yr awdurdod cyfrifol ar y lefel genedlaethol yw corff o'r enw *Ministry for Children and Social Affairs*. Yn y Ffindir a Sweden, mae Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn disgyn i gylch gwaith cyrff o'r enw *Ministry of Education and Culture* a *Ministry of Education and Research*.

4. O ran cyllido, trefnu a rheoli'r system Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar, unwaith eto mae'r gwledydd Llychlynnaidd yn cyflwyno rhai gwahaniaethau. Er enghraifft, yn y Ffindir, mae'n gyfrifoldeb ar y bwrdeistrefi neu ddarparwyr/berchnogion gwasanaethau preifat. Yn Sweden, y llywodraeth sy'n gyfrifol am osod y nodau polisi a'r canllawiau ac am fframweithiau cyllido, ond mae'r system ei hun wedi ei datganoli i raddau helaeth iawn. Ar y lefel leol, mae'r 290 o fwrdeistrefi yn gyfrifol am gynllunio a threfnu'r ddarpariaeth gyhoeddus. Mae darparwyr canolfannau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar annibynnol, y mae tua un rhan o bump o blant Sweden yn mynd iddynt nes cyrraedd oed ysgol, yn gyfrifol am eu rheoli. Yn olaf, yn Nenmarc, mae'r swyddogaeth gyllido, trefnu a rheoleiddio ar gyfer y ddarpariaeth Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn gyfrifoldeb ar yr awdurdodau bwrdeistrefol lleol.

5. Er y gwahaniaethau hyn, mae'r gwledydd Llychlynnaidd yn rhannu hanes o ffocws cryf ar Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar a buddsoddiad helaeth yn y maes, ac mae hyn wedi arwain at wasanaethau o ansawdd uchel iawn i blant a theuluoedd. Gwelwyd gwledydd Ewropeaidd eraill yn gosod Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar ar yr agenda gwleidyddol yn y 1990au, ond yn y gwledydd Llychlynnaidd ystyriwyd bod gwasanaethau cymdeithasol i deuluoedd a phlant yn allweddol i fodel lles y gwledydd Llychlynnaidd ac maent i'w gweld mor gynnar â'r 1970au. Felly, mae'r systemau hyn wedi tyfu mewn ffordd organig ac wedi cael eu gosod wrth galon cymdeithas ar gyfnod cynnar. Yn ei dro, mae hyn wedi arwain at lefelau uchel o fuddsoddiad cyhoeddus er mwyn darparu llefydd i bawb a darpariaeth o ansawdd uchel a arweinir gan staff cymwys iawn.

6. O bersbectif yr astudiaeth hon, mae systemau Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar mewn gwledydd Llychlynnaidd lawer yn llai darniog nag yng Nghymru, ble mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar farchnad gymysg, ac mae'r gweithluoedd Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn y gwledydd Llychlynnaidd yn llawer mwy homogenaidd, yn anad dim o ran cymwysterau, llwybrau mynediad, datblygiad proffesiynol parhaus a dilyniant gyrfa. Yn sgil hyn, nid oes angen am gofrestrfa.